


Ceredigion

Cynllun Datblygu Lleol
2007 - 2022

Canllawiau Cynllunio Atodol Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio



Mabwysiedig Ionawr 2015

Delweddau: Trwy garedigrwydd Zeta Freeman, Catalina Architecture

Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG) hyn yn un o gyfres o ganllawiau a fydd yn cefnogi polisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Er y bydd penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn seiliedig ar bolisiâu'r CDLI (fel y nodir yn rhan 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004), mae cynnwys yr SPG yn ystyriaeth gynllunio berthnasol.

Yn hytrach nag amlinellu polisi yn annibynnol ar y CDLI, nod y Canllawiau yw darparu canllawiau atodol. Felly, yn unol â Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, ni ystyriwyd bod angen iddynt fod yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA). Dyma ganlyniadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol (SA/SEA) o'r polisiâu sy'n berthnasol i'r SPG hyn:

- DM06: Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
- DM07: Ardaloedd Cadwraeth
- DM09: Dyluniad a Symud
- DM10: Dyluniad a Thirweddu
- DM11: Cynllunio ar gyfer Newid Hinsawdd
- DM13: Systemau Draenio Cynaliadwy

Gallwch weld y rhain yn Atodiad 3 Adroddiad Terfynol Arfarniad o Gynaliadwyedd Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (Ebrill 2013).

Cynnwys

Cyflwyniad	7
Polisiâu	7
Beth y Dylid ei Ystyried fel Rhan o'r Broses Ddylunio?	9
Datganiadau Dylunio a Mynediad	11
Yma i Helpu: Siaradwch gyda'r Awdurdod	11
Pa ganiatâd Fydd ei Angen Arnoch Chi?	11
Siarad gyda'r Arbenigwyr	12
Bod yn Gymydog Da	12
Rheoliadau Adeiladu	13
1. Cynaliadwyedd	14
1.1. Cynaliadwyedd Amgylcheddol	14
1.2. Beth mae Hyn yn ei Olygu i chi a beth Allwch chi ei Wneud?	14
1.3. Cartrefi Gydol Oes	15
1.4. Treftadaeth Naturiol: Bioamrywiaeth a Thirwedd	16
1.5. Datblygiadau Carbon Isel a Di-garbon	17
1.6. Datblygiadau sy'n Gallu Gwrthsefyll Llifogydd	19
1.7. Ynni Adnewyddadwy	23
1.8. Ystyriaethau wrth Ddylunio	24
2. Cymeriad: Deall Cyd-destun Ardal.	24
3. Y Dreftadaeth Adeiledig	35
Ardaloedd Cadwraeth ac Adeiladau Rhestredig	35
Rheoliadau Adeiladu ac Adeiladau Rhestredig	40
4. Symudiadau	44
4.1. Cynllun yr Ardaloedd Preswyl	45
4.2. Eglurder	48
4.3. Hygyrchedd a Hwylustod wrth Symud	49

4.4.	Symudiad Gwahanol	53
4.5.	Strydoedd a Gofodau Da	55
4.6.	Nodweddion Strydoedd	57
4.7.	Cwestiynau i'w Gofyn i chi'ch Hun	57
5.	Tirweddu	59
5.1.	Asesiad o Gymeriad y Dirwedd	60
5.2.	Egwyddorion Sylfaenol	62
5.3.	Seilwaith Gwyrdd	62
5.4.	Tirweddu Meddal	63
6.	Estyniadau i'r Adeiladau Presennol	71
	Estyniadau Blaen	73
	Estyniadau Ochr	74
	Estyniadau Cefn	76
	Estyniadau Llofft	78
	Isloriau	79
6.1.	Deunyddiau	80
6.2.	Manylion y Gorffeniadau	83
7.	Blaen Siopau	89
7.1.	Yr Angen i gael Caniatâd: Rhai Mathau o Flaenau Siopau	89
7.2.	Mathau o Flaen Siopau	90
7.3.	Beth sy'n gwneud Blaen Siop	91
7.4.	Diogelwch	97
7.5.	Hysbysebu	98
7.6.	Canopiau a Bleindiau	99
7.7.	Goleuadau	100
7.8.	Bygythiadau	101
7.9.	Cwestiynau i'w Gofyn i chi'ch Hun	102

8. Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau)	104
8.1 Beth yw SDCau?	104
8.2 Polisiâu sy'n gysylltiedig â SDCau	105
8.3 Sut mae SCDau yn gweithio?	106
8.4 SCDau, Tirlun, Bioamrywiaeth a Mannau Agored	110
8.5 Cynnal a Chadw Parhaus	111
8.6 Cwestiynau i'w Gofyn i Chi'ch Hun	111

Cyflwyniad

Nod y ddogfen hon yw darparu canllawiau ar y materion sydd angen eu hystyried wrth ddatblygu gwahanol adeiladau. Mae'r ddogfen hon wedi'i rhannu'n wahanol adrannau, a phob un yn seiliedig ar thema. Gellir darllen rhai themâu yn annibynnol, ond bydd angen i eraill gael eu darllen law yn llaw â themâu eraill. Mae'r adrannau fel a ganlyn:

1. Cynaliadwyedd
2. Cymeriad
3. Symudiad
4. Tirwedd
5. Estyniadau
6. Blaen Siopau
7. Systemau Draenio Cynaliadwy

Ar gyfer pob datblygiad newydd h.y. cartref newydd, swyddfa, argymhellir y dylid ystyried pob adran. Ar gyfer datblygiadau sy'n gysylltiedig ag estyniad yn unig, dim ond rhai adrannau o'r SPG hyn y bydd angen eu darllen.

Mae pob gwaith dylunio a datblygu yn cyfrannu at ddelwedd Ceredigion ac yn dangos ei hanes, ei diwylliant a'i dyheadau i'r dyfodol. Mae rhagoriaeth yr amgylchedd adeiledig yn bwysig i ansawdd bywyd ein trigolion a'n cymunedau ac ansawdd tirwedd a threflun amrywiol Ceredigion.


Nid oes rhaid i'r gwaith o sicrhau dylunio da fod yn anodd. Nod y canllawiau hyn yw hyrwyddo dylunio da, cynaliadwy ym mhob agwedd ar ddatblygiad, o estyniadau preswyl a datblygiadau tai ar raddfa fawr i archfarchnadoedd a chanolfannau gofal iechyd newydd.

Polisiau

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PPW) yn cydnabod y cyfraniad mae dylunio'n ei wneud at sicrhau datblygiadau cynaliadwy a ddymunir, ac mae'n diffinio dylunio fel a ganlyn:

“y berthynas rhwng pob elfen o’r amgylchedd naturiol a’r amgylchedd adeiledig. I sicrhau datblygu cynaliadwy, rhaid i ddylunio fynd y tu hwnt i estheteg a rhaid iddo gynnwys agweddau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y datblygiad. Mae hyn yn cynnwys y modd y caiff ei adeiladu, ei weithredu a’i reoli, a’i berthynas â’r hyn sydd o’i gwmpas.”

Dangosir amcanion dylunio da yn y diagram isod:



FFIGUR 1: AMCANION DYLUNIO DA (TAN 12: DYLUNIO)

Mae Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio yn darparu canllawiau manwl pellach ar ddylunio a sut i gyflawni dylunio da.

Er mwyn cefnogi canllawiau cenedlaethol, mae polisïau wedi’u cynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLI) Ceredigion sy’n darparu cyngor pellach ar yr elfennau sydd angen eu hystyried er mwyn sicrhau dylunio da. Mae prif bolisïau dylunio’r CDLI fel a ganlyn:

- DM06: Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel;
- DM07: Ardaloedd Cadwraeth;

- DM09: Dyluniad a Symud;
- DM10: Dylunio a Thirweddu; ac
- DM11: Cynllunio ar gyfer Newid Hinsawdd.

Beth y Dylid ei Ystyried fel Rhan o'r Broses Ddylunio?

Dylai dylunio fod yn broses gynhwysol. O'i defnyddio'n dda, gall helpu i godi dyheadau'r cyhoedd ac atgyfnerthu balchder ac ymdeimlad o le mewn ardal.

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol (LPA) am helpu datblygwyr i gael y gorau o'u datblygiadau, felly mae'n bwysig eich bod yn siarad â Swyddogion Cynllunio cyn gynted â phosibl (cyn gwneud unrhyw ddarluniau a phenderfynu ar fanylion).

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn cynnig Gwasanaeth Cyngor Cyn Ymgeisio. I gael mwy o wybodaeth am y gwasanaeth hwn, ewch i:

<http://www.ceredigion.gov.uk/Cynllunio>


Mae dyluniad ein pentrefi, ein trefi a'r dirwedd drefol a gwledig yn bwysig o ran cyfleu sut le yw Ceredigion. Mae dylunio yn bwysig i ansawdd bywyd y bobl sy'n byw yng Ngheredigion, felly mae'n hollbwysig bod unrhyw ddatblygiadau newydd o safon uchel ac yn hyrwyddo Ceredigion fel lle pleserus i fyw.

Nid yw dylunio da yn anochel. Mae'n gofyn am gynllunio a meddwl clir ac mae angen i'r broses ddylunio fod yn gyfannol, gan gefnogi creadigrwydd, cynaliadwyedd, pensaernïaeth, tirwedd a chreu lle. Mae dylunio da'n ymgorffori llawer o agweddau, ac mae'r prif egwyddorion fel a ganlyn:

- Cynaliadwyedd;
- Cymeriad;
- Mynediad a Symudiad; ac
- Diogelwch Cymunedol.

Ledled Ceredigion, Cymru a'r Deyrnas Unedig, mae enghreifftiau o ddatblygiadau sy'n amhriodol yn eu cyd-destun oherwydd eu dyluniad, a rhai na fachodd ar gyfleoedd i wella cymeriad, ansawdd a swyddogaeth yr ardal. Ni fydd y fath ddatblygiadau a dyluniadau'n dderbyniol oherwydd mae iddynt effeithiau andwyol ar ein bröydd.

I sicrhau dylunio holistig mae angen newid y pwyslais a'r ddibyniaeth lwyr ar safonau penodol, sy'n gallu llesteirio arloesedd a chreadigrwydd. O'r cychwyn cyntaf, dylid canolbwyntio ar gyflawni amcanion dylunio da (Ffigur 1). Wrth ddylunio mae angen sicrhau y cyflawnir yr amcanion hyn, yn ogystal ag ymateb i'r cyd-destun lleol. Mae Ffigur 2 isod yn dangos yr holl wahanol gyfnodau sy'n gysylltiedig a'r broses ddylunio.



FFIGUR 2: Y BROSES DDYLUNIO

Datganiadau Dylunio a Mynediad

Mae Datganiad Dylunio a Mynediad (DAS) yn ddull cyfathrebu defnyddiol sy'n esbonio'r ystyriaethau dylunio mewn cais cynllunio. Er enghraifft, dylai ddangos bod y sawl sy'n gwneud cais am ganiatâd (yr ymgeisydd) wedi meddwl yn ofalus am sut y bydd pawb, gan gynnwys pobl anabl, pobl hŷn a phlant ifanc iawn, yn gallu defnyddio'r llefydd y mae am eu datblygu.

Mae dangos sut mae'r cyd-destun lleol wedi dylanwadu ar y dylunio yn elfen bwysig hefyd. Dylid trafod y mater hwn mewn perthynas â'r cynllun yn ei gyfanrwydd.

Mae canllawiau ynghylch Datganiadau Dylunio a Mynediad (DAS) ar gael gan Adain Gynllunio Llywodraeth Cymru trwy: <http://cymru.gov.uk>

Yma i Helpu: Siaradwch gyda'r Awdurdod

Mae Swyddogion Cynllunio ar gael i'ch helpu chi, ac fe'ch anogir i ymgynghori â nhw cyn cyflwyno cais manwl. Gall hyn helpu i gyflymu'r broses gynllunio ac osgoi unrhyw anawsterau.

Mae system cyn ymgeisio eisoes ar waith yng Nghyngor Sir Ceredigion sy'n rhoi cyfle i chi gyfarfod â Swyddog Cynllunio. I gael mwy o wybodaeth, ewch i wefan y Cyngor:

<http://www.ceredigion.gov.uk/Cynllunio>

Pa ganiatâd Fydd ei Angen Arnoch Chi?

Gall rhai datblygiadau fynd rhagddynt heb yr angen am ganiatâd cynllunio. Yr enw ar y datblygiadau hyn yw 'datblygu a ganiateir'. Os hoffech chi ddysgu mwy am ddatblygu a ganiateir, gallwch edrych ar dŷ Cymreig rhyngweithiol ar y Porth Cynllunio a fydd yn rhoi canllawiau i chi ar lawer o brosiectau cyffredin gan ddeiliaid tai, gan gynnwys microgynhyrchu gartref (cynhyrchu trydan neu wres a hynny at ddefnydd domestig ar raddfa fach, trwy ddulliau na fydd yn cyfrannu at ddi-hysbyddu adnoddau naturiol e.e. [panelau solar / ffynhonnell aer). I gael mynediad i safle'r Porth Cynllunio, defnyddiwch y ddolen hon

(<http://www.planningportal.gov.uk/permission/>).

Er nad oes angen caniatâd cynllunio, mae dylunio yn dal i fod yn ffactor pwysig i'w ystyried, felly bydd elfennau o'r Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG) hyn yn ddefnyddiol i chi.

I weld a ydych chi mewn ardal gadwraeth neu a yw adeilad yn adeilad rhestredig, ffoniwch y Gwasanaeth Cynllunio – Rheoli Datblygu ar 01545 572135.

Ar gyfer gwaith dymchwel mewn Ardaloedd Cadwraeth, bydd angen Caniatâd Ardal Gadwraeth arnoch ac ar gyfer gwaith ar Adeilad Rhestredig, bydd angen cael Caniatâd Adeilad Rhestredig.

Mae canllawiau pellach ar gael yng Nghylchlythyr 61/96 y Swyddfa Gymreig: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth trwy <http://Cymru.gov.uk>

Siarad gyda'r Arbenigwyr

Efallai y byddai cyngor gan weithiwr proffesiynol sydd wedi derbyn hyfforddiant priodol yn ddefnyddiol wrth lunio cais cynllunio da.

Ymhlith y sefydliadau sy'n gallu darparu cyngor mae'r canlynol: Cymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru (RSAW), y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru (RTPI), Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) a Sefydliad Prydeinig y Technolegwyr Pensaernïol (BIAT).

Bod yn Gymydog Da

Mae'n syniad da bob amser rhoi gwybod i'ch cymdogion am unrhyw gynlluniau sydd gennych chi i adeiladu estyniad i'ch eiddo. Os cyflwynir cais cynllunio, byddwn yn ymgynghori â'ch cymdogion yn awtomatig.

Os bydd eich cais yn cynnwys wal gydrannol, bydd angen i chi gydymffurfio â Deddf Waliau Cydrannol 1996. Mae taflenni am y Ddeddf hon ar gael trwy'ch adran gynllunio.

Rheoliadau Adeiladu

Mae'r rheoliadau adeiladu yn berthnasol i waith adeiladu ac maent yn gosod safonau ar gyfer dylunio ac adeiladu i sicrhau diogelwch ac iechyd y bobl yn yr adeiladau hynny neu yn y cyffiniau. Mae'r rheoliadau hefyd yn cynnwys gofyniad i sicrhau nad yw tanwydd a phŵer yn cael eu gwastraffu.

Mae Cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu yn ganiatâd ar wahân i ganiatâd cynllunio a bydd angen gwneud cais ar wahân amdano. Os byddwch chi'n cael caniatâd cynllunio, ni fyddwch chi o reidrwydd yn cael cymeradwyaeth rheoliadau adeiladu, ac i'r gwrthwyneb.

1. Cynaliadwyedd

Mae i gynaliadwyedd nifer o ystyron, sy'n cwmpasu cynaliadwyedd amgylcheddol a chynaliadwyedd economaidd. O'i ddisgrifio mewn termau syml, mae a wnelo cynaliadwyedd â chreu cymunedau ac amgylcheddau sy'n ceisio dwyn yr effaith leiaf bosib a chynnig ansawdd bywyd uchel ar gyfer y presennol ac er lles cenedlaethau'r dyfodol hefyd. Bydd yr adran hon yn rhoi sylw i gynaliadwyedd amgylcheddol yn bennaf, a bydd yn dangos sut y gall yr amgylchedd adeiledig ymateb i hyn, a ffyrdd o leihau effeithiau datblygiadau newydd.

Er mai nod cyffredinol y CDLI yw hwyluso datblygiad sy'n gynaliadwy o ran natur, mae Polisi DM11 yn arbennig o berthnasol mewn perthynas â chynaliadwyedd gan ei fod yn mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

1.1. Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Y newid yn yr hinsawdd yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r byd heddiw a bydd yn effeithio arnom ni i gyd mewn rhyw ffordd. Mae mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn rhan allweddol o'r gwaith o gyflawni datblygu cynaliadwy.

Mae gan y system gynllunio gyfraniad pwysig i'w wneud at wella cynaliadwyedd datblygiadau newydd. Bydd rhai o effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn cael effaith ar ein hamgylchedd adeiledig. Felly, mae angen dylunio adeiladau mewn ffordd a fydd yn ystyried y newidiadau hyn ac yn lleihau cyfanswm y carbon rydym ni a'n hadeiladau yn eu defnyddio; trwy ddylunio da, mae modd i ni gyflawni hyn.

1.2. Beth mae Hyn yn ei Olygu i chi a beth Allwch chi ei Wneud?

Mae llawer o bobl yn meddwl bod cynaliadwyedd yn beth negyddol; mae rhywun yn dweud 'cynaliadwy' ac mae pobl yn aml yn meddwl am leihau,

newid ffordd o fyw, drud, dylunio sy'n perthyn i oes y gofod. Ond nid un elfen mohono; mae cynaliadwyedd yn cynnwys llawer o elfennau o fewn system.

Bydd i ddylunio ac adeiladu da, cynaliadwy fanteision uniongyrchol i'r bobl sy'n byw mewn bro, i gymunedau a hyd yn oed i ddatblygwyr. Trwy ystyried cynaliadwyedd ar ddechrau'r broses ddylunio, gall ddod yn broses rwydd a chyfannol.

1.3. Cartrefi Gydol Oes

Mae Polisi CDLI Ceredigion **LU02: Gofynion o ran Pob Datblygiad Preswyl** yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob datblygiad preswyl ddarparu Safonau Cartrefi Gydol Oes. I gael gwybodaeth am y Safonau Cartrefi Gydol Oes, ewch i: <http://www.lifetimehomes.org.uk/>

Diben cyflwyno safonau Cartrefi Gydol Oes yw dylunio annedd sy'n ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion ei berchnogion wrth i amser fynd rhagddo ac anghenion y perchnogion newid. Mae'r nodweddion dylunio sy'n ofynnol yn syml iawn ac, os cânt eu hymgorffori'n gynnar yn y cyfnod dylunio, mae'n annhebygol y byddant yn ychwanegu llawer mwy at y gost adeiladu. Trwy roi'r elfennau hyn ar waith, gall annedd addasu'n well i anghenion newidiol ei berchnogion. Mae annedd sydd wedi'i ddylunio gyda Cartrefi Gydol Oes yn creu ac annog amgylcheddau byw gwell i bawb. O fagu plant ifanc i ymdopi â salwch i ymdrin â phroblemau symud yn ddiweddarach mewn bywyd, mae Cartrefi Gydol Oes yn gwneud da a drwg bywyd bob dydd yn haws eu rheoli.

Mae 16 o feini prawf yn y Safonau Cartrefi Gydol Oes. Mae'r ddogfen *Lifetime Home (LTH) Revised Criteria July 2010* a gynhyrchwyd gan y sefydliad Lifetime Home (ar gael i'w lawrlwytho am ddim trwy'r ddolen hon:

http://www.lifetimehomes.org.uk/data/files/For_Professionals/accessible_revised_lthstandard_final.pdf). Mae'r ddogfen honno'n helpu esbonio'r meini prawf a'r hyn sydd angen ei wneud i'w bodloni.

1.4. Treftadaeth Naturiol: Bioamrywiaeth a Thirwedd

Dylai datblygiadau gael eu dylunio fel eu bod yn integreiddio, yn diogelu ac yn gwella gwerthoedd bioamrywiaeth a thirwedd y safle a'r fro. Mae tirwedd Ceredigion yn bwysig a dylid ei diogelu a'i gwella. Nid yw hyn yn golygu na ddylid caniatáu datblygiad, ond yn hytrach y dylai unrhyw ddatblygiad a ganiateir fod o safon uchel sy'n ategu neu'n cyfrannu at y dirwedd.

Yn aml, mae pobl yn teimlo bod bioamrywiaeth a thirwedd yn cyfyngu ar ddatblygiad, ond nid yw hyn yn wir. Bydd bioamrywiaeth a thirwedd unigryw ardal yn helpu i roi hunaniaeth unigryw i safle ac, yn ei dro, gallai hynny helpu marchnata a gwerthu'r datblygiad. Mantais cadw coed a pherthi yw y bydd gan ddatblygiad newydd deimlad o aeddfedrwydd yn syth. Mae'n edrych yn well ac, yn aml, bydd yn fwy deniadol i brynwyr.

Mae Adran 4 y Canllawiau hyn yn rhoi sylw manwl i dirweddu. Fodd bynnag, mae rhai elfennau cyffredinol i'w hystyried yn y cyfnod dylunio gan gynnwys:

- Mewnbyn arbenigol; ystyriwch ddefnyddio ecolegwyr a phenseiri tirwedd i'ch cynghori chi ynghylch dyluniad a chynllun cyffredinol y safle.
- Ystyriwch treftadaeth naturiol y safle. Sut y gellir ei hymgorffori'n gadarnhaol yn y dyluniad?
- Cadw tirweddau a nodweddion bioamrywiaeth presennol h.y. peidio â chlirio nodweddion y safle ac ymgorffori'r nodweddion hyn yn nyluniad y datblygiad
- Dylunio nodweddion newydd sy'n hyrwyddo bioamrywiaeth.
- Gwneud iawn am unrhyw fioamrywiaeth a gollir

Nid y nodweddion meddal yn unig sy'n bwysig i fyd natur. Mae bywyd gwylt yn gallu defnyddio nifer o nodweddion yr adeiladau a'r adeileddau hefyd. Gal planhigion is megis mwsoglau a chen prin ddefnyddio'r nodweddion hynny yn ogystal; yn enwedig adar ac ystlumod Gall gwaith dymchwel, estyniadau a hyd yn oed newidiadau ddiddymu, rhwystro neu newid y nodweddion hyn ace ffeithio'n ddirfawr ar fywyd gwylt. Er enghraifft, mae ymestyn adeilad yn gallu effeithio ar y bondo sydd o bosib yn rhoi mynediad i ystlumod i glwydo. O dan

amgylchiadau o'r fath, efallai y byddai angen cynnal arolygon priodol a gwneud gwaith lliniaru ac unioni fel rhan o'r datblygiad


Mae codi adeileddau'n gallu bod yn gyfle i wneud gwelliannau. Mae dulliau adeiladu modern wedi creu briciau ystlumod ac adar, teiliau ystlumod ac ati, sy'n cael eu cynnwys yn yr adeiladwaith, y waliau ac adeileddau eraill. Mae hynny'n sicrhau dull mwy hirhoedlog ac integredig. Gall blychau traddodiadol ar gyfer adar ac ystlumod fod yn briodol o dan rai amgylchiadau.

I gael mwy o wybodaeth ynglŷn ag a yw datblygiad yn debygol o effeithio ar fyd natur ai peidio a'r cyfleoedd sydd i wneud gwelliannau, gweler y Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n ymwneud â Chadwraeth Natur a'r nodiadau canllaw 'Ystlumod a Datblygu'.

1.5. Datblygiadau Carbon Isel a Di-garbon

Mae adeiladau'n cael effaith amgylcheddol gynhenid ac maent yn cyfrannu at allyriadau carbon. Mae angen defnyddio adnoddau naturiol i'w hadeiladu ac wrth eu defnyddio. Mae'r dyluniad yn effeithio ar sut mae'r meddianwyr yn defnyddio'r adeilad gydol ei oes. Dyhead Llywodraeth Cymru yw y bydd pob adeilad newydd yn cyflawni safonau di-garbon.

Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: Dylunio yn darparu canllawiau ar ddatblygiadau carbon isel/di-garbon. Mae Ffigur 3 yn dangos tair elfen allweddol y bydd angen eu hystyried.



FFIGUR 3: DULLIAU CARBON ISEL (TAN 12, LLYWODRAETH CYMRU 2014)

1.5.1. Adeiladau di-garbon

Term cyffredinol yw hwn a ddefnyddir mewn perthynas ag adeilad/gwaith adeiladu sydd â defnydd net o ynni o sero a dim allyriadau carbon.

Yn syml, mae'n golygu y gwneir iawn am unrhyw allyriadau carbon yn ystod y cyfnod adeiladu ac nad yw'r adeilad yn allyrru unrhyw allyriadau carbon pellach yn ystod ei oes h.y. bod ei bŵer yn dod o ffynonellau ynni adnewyddadwy, ei fod yn defnyddio deunyddiau lleol ac ati. Mae cyflawni safon ddi-garbon yn gallu bod yn anodd ac mae angen meddwl mewn ffordd wahanol.

1.5.2. Datblygiadau Un Blaned

Yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy, mae yna gyfle i lunio datblygiad 'Un Blaned'. Diffinnir y math hwn o ddatblygiad fel a ganlyn:

“Ar y cychwyn, dylai Datblygiadau Un Blaned fod ag ôl-troed ecolegol o 2.4 hectar byd-eang y pen neu lai o ran y defnydd ar adnoddau, a dangos potensial amlwg i symud tuag at darged o 1.88 hectar byd-eang gydag amser. Dylent hefyd fod yn ddi-garbon o ran eu hadeiladu a'u defnydd.” (TAN 6, 4.15.1, 2010)

Mae TAN 6 yn darparu canllawiau clir iawn ar yr hyn y mae angen i ddatblygiad ei gyflawni er mwyn cael ei ystyried yn ddatblygiad 'Un Blaned', felly dylai pob datblygiad o'r fath gyfeirio at y ddogfen hon, y mae modd ei lawrlwytho am ddim yn:

<http://newydd.cymru.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan6/?lang=cy>

1.5.3. Dylunio Goddefol

Nod dylunio goddefol yw gwella ffurf a chyfeiriadedd adeilad, dyluniad y ffasâd a chynllun y safle er mwyn manteisio'n llawn ar yr amgylchedd naturiol. Trwy wneud hyn, bydd y meddiannydd yn mwynhau lefel uchel o gysur heb ddefnyddio llawer o ynni. Mae Dylunio Goddefol yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Ynni'r haul: ceisio rheoli'r cydbwysedd rhwng manteisio'n llawn ar ynni'r haul a lleihau cyfleoedd i ordwymo;
- Manteisio'n llawn ar olau dydd naturiol;
- Defnyddio dulliau awyru naturiol yn ôl yr angen;
- Defnyddio màs thermol er mwyn sefydlogi tymereddau y tu mewn i adeilad e.e. lleihau effaith cynnydd mewn gwres ac osgoi gordwymo yn ystod yr haf.

1.6. Datblygiadau sy'n Gallu Gwrthsefyll Llifogydd

Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn atal datblygu rhagor o dai yn yr ardal llifogydd C2 oni bai bod modd cyfiawnhau hynny yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Llifogydd, Adran 6. Os cyfiawnheir datblygiad yn erbyn y gofynion hyn, rhaid iddo allu gwrthsefyll llifogydd.

I weld a yw eich safle o fewn ardal llifogydd, gweler map rhyngweithiol Llywodraeth Cymru: <http://data.wales.gov.uk/apps/floodmapping/>

Hyd yn oed os nad yw eich safle mewn ardal sy'n cael ei heffeithio gan lifogydd, dylech ystyried rhai o'r atebion dylunio sy'n gwrthsefyll llifogydd gan mai un o effeithiau tebygol y newid yn yr hinsawdd yw lefelau glawiad uwch a all arwain at fflachlifoedd. Mae atebion dylunio sy'n gwrthsefyll llifogydd yn cynnwys:

- Byrddau sgyrtin sydd wedi'u gwneud o ddeunydd sy'n gallu gwrthsefyll llifogydd;
- Gosod y prif ddarnau o gyfarpar ar blinthiau fel eu bod oddi ar y llawr;
- Plastr priodol sy'n gallu gwrthsefyll llifogydd ar gyfer waliau lle gall dŵr fod yn broblem;
- Dylai fod y llawr gwaelod o adeiladwaith solet gyda lloriau sy'n gallu gwrthsefyll llifogydd e.e. llechi, clai a theiliau llawr thermoplastig. Dylid gosod finyl yn hytrach na charpedi y gellir ei rollo a'i symud i fan diogel os bydd llifogydd.

- Mae canllawiau ynghylch gwarchod rhag llifogydd ar gael gan <http://naturalresourceswales.gov.uk/flooding-and-water/what-to-do-before-during-and-after-a-flood/before/?lang=en>
<http://naturalresourceswales.gov.uk/flooding-and-water/what-to-do-before-during-and-after-a-flood/before/?lang=en>
<http://naturalresourceswales.gov.uk/flooding-and-water/what-to-do-before-during-and-after-a-flood/before/?lang=en>.
- Drysau allanol wedi'u gosod i mewn o'r wyneb allanol fel bod modd gosod gardiau rhag llifogydd os bydd angen.

1.6.1. Adeiladau to gwyrdd

Mae gosod to gwyrdd yn ffordd syml o arbed ynni, gwella draeniad dŵr a helpu bywyd gwylt. Mae to gwyrdd yn system sy'n defnyddio planhigion yn hytrach na deunyddiau traddodiadol i orchuddio'r to. Mae'r to yn cynnwys haenau o lystyfiant sy'n gorwedd ar ben arwynebau confensiynol sy'n gallu gwrthsefyll dŵr.



Ffigur 4: Canolfan toeau gwyrdd Augustenborg (Malmo) (Susdrain)



Ffigur 5: Ddol House, Aberarth, Aberaeron

Delweddau: Trwy garedigrwydd Zeta Freeman, Catalina Architecture

Mae yna sawl math gwahanol o doeau gwyrdd; rhai ohonynt yn well i fioamrywiaeth ac eraill yn well i fywyd gwyllt yn gyffredinol.

Gall to gwyrdd helpu i leihau costau ynni gan ei fod yn ychwanegu haen arall o inswleiddio, gan ostwng y tymheredd y tu mewn i'r adeilad yn ystod misoedd yr haf a chynyddu'r tymheredd yn ystod y gaeaf. Mae hyn yn helpu i leihau allyriadau CO2 wrth i'r angen i gynhesu/oeri'r adeilad leihau.

Gall to gwyrdd leihau cyfanswm y dŵr ffo hefyd, felly gall fod yn rhan allweddol o System Ddraenio Gynaliadwy (gweler Adran 7: SDCau).

Trwy osod to gwyrdd, naill ai ar eich adeilad i gyd neu ar ran ohono, rydych chi'n helpu i ddarparu elfen o 'Seilwaith Gwyrdd' sy'n helpu amgylchedd Ceredigion.



Oherwydd bod to gwyrdd yn wahanol iawn i do arferol, mae'n bwysig cael cyngor ar sut y gellir darparu ar gyfer y pwysau ychwanegol o fewn y broses adeiladu. Bydd hi'n bwysig ystyried sut y gellir sicrhau mynediad i'r to at ddibenion cynnal a chadw hefyd.

Oherwydd bod y gwaith o ddylunio a phlannu to gwyrdd yn hynod arbenigol, fe'ch cynghorir i gysylltu â gweithiwr proffesiynol cymwys a fydd yn gallu'ch cynghori ar y planhigion gorau i'w defnyddio ac ati. Dyma rai adnoddau:

- <http://www.thegreenroofcentre.co.uk>
- <http://livingroofs.org>
- <http://www.greenroofstoday.co.uk>

1.6.2. Gerddi Glaw

Mae gardd law yn cynnwys goleddf neu dwll bas a gynlluniwyd i dderbyn y dŵr o arwynebau anhydraidd e.e. ffyrdd, toeau ac ati. Mae'r ardal hon yn lleihau dŵr ffo trwy ganiatáu i'r dŵr gael ei amsugno'n raddol i'r ddaear, felly gall hyn hefyd fod yn rhan allweddol o Systemau Draenio Gynaliadwy (SDCau). Gweler Adran 7 yn yr SPG hyn (dolen).



Ffigur 6 a 7: Gardd Law Ashby Grove (Sudrain)

Felly, dylai'r ardd gael ei lleoli yn ymyl ffynhonnell anhydraidd megis peipen dŵr to.

Gan fod yr ardal hon i fod yn wlyb, mae'n bwysig plannu planhigion sy'n hoffi dŵr ac sy'n frodorol i'r wlad hon. Mae'n bwysig plannu amrywiaeth o blanhigion, megis llwyni, coed a rhedyn, gan eu bod yn helpu i amsugno dŵr. Bydd Gardd Law yn:

- Hidlo llygredd o ddŵr ffo;
- Ail-lenwi dŵr daear lleol;
- Arbed dŵr;
- Gwella ansawdd dŵr;
- Diogelu afonydd a nentydd;
- Cael gwared ar ferddwr yn eich gardd;
- Lleihau'r potensial o lifogydd yn effeithio ar eich cartref;
- Creu cynefin ar gyfer adar a gloynnod byw;
- Goroesi cyfnodau o sychder;
- Gwella amwynder gweledol; a
- Chynyddu lefelau mwynhad yn yr ardd.

1.6.3. Casgenni Dŵr

Un ffordd syml a rhad o helpu i arbed dŵr yw trwy osod casgen ddŵr. Yn ôl Waterwise, ar gyfartaledd mae 85,000 litr o ddŵr glaw yn disgyn ar eich to bob blwyddyn. Gall y dŵr glaw hwn gael ei ddefnyddio i ddyfrhau eich gardd, i lanhau eich câr ac i olchi'ch ffenestri. Gallwch brynu casgen ddŵr gan y Cyngor: <http://www.ceredigion.gov.uk> Mae rhagor o wybodaeth ar y wefan.

1.7. Ynni Adnewyddadwy

Gall gosod math o ynni adnewyddadwy helpu i leihau biliau trydan a gwresogi a helpu'r amgylchedd. Dyma'r prif ffynonellau ynni adnewyddadwy ar gyfer y cartref:

- ynni'r haul;
- ynni o'r ddaear, yr aer neu ffynonellau dŵr;
- planhigion a dyfir ar gyfer tanwydd (biomas neu fiodanwydd);
- gwastraff;
- symudiad dŵr (hydro) a gwynt.

I gael mwy o wybodaeth am y gwahanol fathau o ynni adnewyddadwy, ewch i wefan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni:

<http://www.energysavingtrust.org.uk/Generating-energy>

Os hoffech chi osod paneli solar thermol neu ffotofoltäig fel rhan o'ch prosiect, dylech sicrhau bod fframiau'r systemau hyn yn ddu yn hytrach nag yn wyn neu'n arian. Byddai ffrâm ddu yn fwy cydnaws â liwiau traddodiadol toeau yng Ngheredigion na lliwiau eraill a byddai'n edrych yn llai anghymarus.

1.8. Ystyriaethau wrth Ddylunio

Mae yna rai pethau syml y gallwch chi eu gwneud wrth ddylunio cartref newydd neu estyniad i helpu mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, megis:

Defnyddio gwastraff adeiladu a dymchwel ar y safle trwy aildefnyddio deunyddiau adeiladu e.e. briciau, teils, llechi ac ati.

- Dylunio adeiladau a gofodau allanol gyda digon o le i ddarparu cyfleusterau ailgylchu a chompostio effeithiol.
- Ystyried ynni adnewyddadwy ar y safle. Yn aml, gall datblygiadau mawr roi cynllun ynni adnewyddadwy cymunedol ar waith i ddiwallu anghenion y datblygiad cyfan.
- Ystyried nodweddion dylunio a fydd yn helpu mynd i'r afael â rhai o effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, er enghraifft:
 - caeadau rhag yr haul;
 - dyluniad y to, draeniad y to a'r system draenio dŵr storm fel eu bod yn gallu ymdopi â lefelau uwch a thrymach o law; ac
 - plannu'r dirwedd fel ei bod yn addas ar gyfer amodau sychach.
- Rhoi Systemau Draenio Cynaliadwy ar waith; mae hwn yn rheidrwydd cenedlaethol
- Dylunio gardd law – gweler uchod
- Dylunio adeilad â tho gwyrdd – gweler isod
- Gosod casgen ddŵr – gweler uchod
- Ystyried sut y gall yr adeilad gael ei ddefnyddio yn y dyfodol a sut y gellid ei addasu i'w ddefnyddio mewn ffyrdd eraill.

2. Cymeriad: Deall Cyd-destun Ardal.

Mae dylunio da'n allweddol o ran creu a chynnal amgylcheddau llewyrchus, cynaliadwy. Dylai datblygiadau gael eu dylunio fel eu bod yn ddymunol, yn

iach ac yn ddiogel. Dylent gael eu dylunio fel y gall pobl o bob oedran fyw, ffynnu a mwynhau ynddynt.

Mae Ceredigion yn ffodus bod ganddi hanes cyfoethog a adlewyrchir yn aml yn ei hadeiladau a'i gofodau. Fodd bynnag, nid oes gan lawer o'r datblygiadau modern fawr ddim sy'n eu cysylltu â Cheredigion, sy'n golygu y gallent fod yn unrhyw ran o Gymru, neu'r Deyrnas Gyfunol o ran hynny. Mae datblygiadau newydd yn gallu bod yn ddigymeriad os nad ydynt yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o'r hyn sy'n rhoi hynodrydd i le. Golyga hynny fwrw golwg wrthrychol dros gymeriad hanesyddol lle yn ogystal â'r nodweddion modern i ddeall pam mae rhywle'n edrych fel y mae.

Felly, er mwyn gwella ansawdd amgylchedd adeiledig Ceredigion, mae'n hollbwysig bod datblygiadau newydd yn seiliedig ar asesiad trylwyr o'r cymeriad lleol, Dyma rai elfennau hanfodol y dylech chi eu hystyried wrth ddylunio:

- **Pobl:** dylai llefydd gael eu dylunio gyda phobl mewn golwg. Mae rhywle sy'n cael llawer o ddefnydd yn rhywle sy'n cael ei werthfawrogi.
- **Cyswllt â'r nodweddion presennol:** dadansoddiad gwrthrychol o nodweddion yr ardal lle bwriedir lleoli'r datblygiad. A oes i'r adeiladau a'r adeileddau presennol ffurf adeiledig hysbys sy'n adlewyrchu hanes y lle, yr hyn sy'n hynod ynghylch y bensaerniaeth sydd ohoni a'r modd y mae'n cyfrannu at yr hunaniaeth leol?
- **Gweithio gyda'r dirwedd, yn hytrach nag yn ei herbyn:** dylai dyluniadau sicrhau y gall y ffurf adeiledig newydd weithio gyda'r dirwedd a'i gwella.
- **Meddwl am y dyfodol:** dylai datblygiadau gael eu hadeiladu i bara, sut bynnag y bydd demograffeg a sefyllfaoedd yn newid. A fydd eich datblygiad yn hyblyg i ymateb i anghenion sy'n newid?

Cyn i chi ddechrau dylunio eich datblygiad newydd (annedd, sied ac ati), gofynnwch y cwestiynau canlynol i chi'ch hun:

1. Beth ydych chi'n ei hoffi am y lleoliad o ran ei bensaerniaeth?

2. Beth nad ydych chi'n ei hoffi am y lleoliad o ran ei bensaernïaeth?
3. Yn eich barn chi, beth sydd angen ei wella o ran y ffurf adeiledig?

Bydd y tri chwestiwn syml hwn yn rhoi syniad i chi o'r hyn rydych chi'n ei hoffi am leoliad penodol a'r elfennau y credwch y gellid eu gwella. Yn seiliedig ar hyn, gallwch ddechrau ystyried sut y gall eich datblygiad a dyluniad y datblygiad fynd i'r afael â'r materion hyn. I gael dealltwriaeth lawn o'r lleoliad, ar ddiwedd yr adran hon mae rhestr o gwestiynau – bydd ateb y cwestiynau hyn yn darparu gwybodaeth i'ch helpu i lywio'r Datganiad Dylunio a Mynediad.

Effaith Gadarnhaol

Wrth bwysu a mesur yr ardal rydych chi am ei datblygu, mae'n bwysig eich bod yn ystyried a yw ffurf yr adeilad presennol a'i gyd-destun lleol yn gadarnhaol. Os felly, dylech ystyried sut y gall y datblygiad newydd adlewyrchu'r priodoleddau cadarnhaol hyn.

Dylai cymeriad a chyd-destun safle gael dylanwad cadarnhaol ar y dyluniad fel ei fod yn adlewyrchu'r hyn sydd eisoes ar y safle ac yn ymateb iddo, yn hytrach na'i gopïo'n unig.

Y cam cyntaf wrth asesu safle yw dechrau gweithio gyda'r safle, yn hytrach nag yn ei erbyn. Os yw'r safle ar oleddf, ni ddylid ei lefelu o reidrwydd. Dylai dyluniad y safle weithio gyda'r goledf os yn bosibl, yn hytrach na gweithio yn ei erbyn. Yn lleol mae'r Ceinewydd yn enghraifft dda o leoliad lle mae datblygiadau wedi gweithio gyda ffurf naturiol y tir; y tai'n codi mewn terasau i fyny o'r arfordir.

Gallwch ymgorffori priodoleddau cadarnhaol megis patrwm stryd, maint a ffurf adeiladau a chyfrannedd ym mhob datblygiad newydd, hyd yn oed os ydych chi'n defnyddio arddull bensaernïol newydd.

Mae Ffigur 8 isod yn dangos enghraifft dda a drwg o'r ffordd y dylai adeiladau weddu i'w gilydd. Mae rhes uchaf o dai teras yn gymesur â'i gilydd, ac mae'r toeau ar un llinell, ac mae'r ffenestri a'r drysau wedi eu gosod yn gymesur ar

hyd y ffasâd. Mae rhes waelod y tai teras yn cwmpasu adeilad 3 llawr, nad yw'n gymesur ag adeiladau eraill y teras, oherwydd ei faint a hefyd cyfluniad y ffenestri a'r drysau.



FFIGUR 8: MAINT A CHYFRANNEDD MEWN STRYD

Os oes gan y cyd-destun lleol gymeriad gwan neu negyddol, ni fyddai'n gwneud synnwyr i ailadrodd yr hyn sydd wedi'u wneud o'r blaen, felly rhaid i ddatblygiad newydd wella'r ardal. Er enghraifft, gellid gwneud hyn trwy gyflwyno patrymau stryd newydd, ffurfiau adeiladu a gwahanol arddulliau pensaernïol.

Bydd sicrhau y bydd y datblygiad newydd yn gwella ymddangosiad a chymeriad safle yn helpu i osod meincnod ar gyfer datblygiadau'r dyfodol. Mae hyn yn hollbwysig os yw'r safle a'r cyd-destun presennol o safon isel yn weledol, yn wan neu'n brin o gymeriad.

Yn aml, tybir nad oes lle i ddyluniadau arloesol o fewn patrymau sefydledig neu o fewn tref neu bentref a'u bod yn anghydnaws â'r dulliau pensaernïol traddodiadol.

Mewn gwirionedd, mae dulliau pensaernïol wedi esblygu dros gannoedd o flynyddoedd ac wedi newid sawl gwaith yn y gorffennol mewn ymateb i newidiadau i amodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Felly, nid oes unrhyw reswm pam na ddylai dyluniad sy'n defnyddio deunyddiau modern ac sy'n ymateb i estheteg gyfoes weddu yng nghyd-destun ffurfiau mwy traddodiadol, cyn belled â'i fod yn cael ei wneud yn iawn.

Yn aml, mae materion yn ymwneud â rhinweddau pensaernïaeth draddodiadol o'i chymharu â phensaernïaeth gyfoes yn ymwneud ag arddull yr adeilad ei hun. Yn aml, mae pethau sylfaenol iawn yn cael eu hesgeuluso wrth ddylunio adeilad cyfoes newydd. Gall y pethau syml iawn hyn helpu'r adeilad newydd i weddu i gymeriad a chyd-destun y ffurf adeiledig draddodiadol. Mae elfennau i'w hystyried yn cynnwys:

- Pellter yr adeilad o'r ffordd;
- Lled y llain;
- Uchder yr adeilad,



FFIGUR 9: ADEILAD MODERN YN ABERAERON

Nid yw cyfoeth gweledol yn golygu dyluniadau gorgymhleth. Yn aml, mae rhai o'r ffurfiau gorau yn syml iawn o ran dyluniad. Mae cyfoeth gweledol yn deillio o ffocws ar fanylion yn aml, er enghraifft, ffenestri dalennog, estyll tywydd addurnol ac ati. Mae hi hefyd yn bwysig ystyried a yw eich safle a'ch datblygiad yn gyfle i wneud rhywbeth arbennig o ran dylunio. Dyma rai ffyrdd syml o ychwanegu cyfoeth gweledol:

- Ychwanegu uchder i gorneli adeiladau;
- Ffasadau gyda digon o fanylion ar ben golygfeydd;
- Deunyddiau o safon.

Dwysedd a Chymysgedd

Dylai datblygiad ddefnyddio tir mewn ffordd effeithlon, gan ddefnyddio dwysedd sy'n briodol i'r ardal. Mae datblygiad cryno yn annog dwyseddau sy'n ddigonol i gefnogi gwasanaethau ac amwynderau lleol. Mae hyn, yn ei dro, yn lleihau'r angen i deithio ac yn helpu i wella cydlyniant cymunedol.

Mae'n bwysig cofio bod yna gyfle i sicrhau bod dwysedd dylunio yn sbarduno agwedd ymatebol at gyd-destun y datblygiad.

Dylid osgoi adeiladu gormod o eiddo sengl ar leiniau ar wahân. Yn hytrach, anogir cyfleoedd i adeiladu tai teras, amrywio pellter o'r ffordd a chreu hunaniaeth ddylunio 'grŵp eiddo', ynghyd ag ymatebion dylunio i nodweddion naturiol a lefelau ar y safle.

Wrth ystyried y dwysedd priodol, dyma rai pethau i'w hystyried:

- Sut y bydd bioamrywiaeth, ystyriaethau ecolegol a thirwedd yn effeithio ar y dwysedd;
- Sut y gellir defnyddio dwyseddau uwch mewn ffordd gadarnhaol i ddiffinio gofodau, tu blaen adeiladau a phrif strydoedd mewn ardaloedd hygyrch neu mewn ardaloedd â llawer o wasanaethau/cyfleusterau;
- Sut mae sicrhau darpariaeth mannau agored gyda'r dwysedd uwch; ceir manylion ynglŷn â'r gofynion sy'n ymwneud a mannau agored a sut y cyfrifir y gofynion yng Nghannllawiau Cynllunio Atodol yr Awdurdod Lleol ynghylch Mannau Agored;
- Y cysylltiad rhwng maint yr uned a maint y llain. Dylai maint y llain adlewyrchu maint yr uned.

Mae'r Cyngor wedi pennu dwysedd argymelledig eisoes ar gyfer safleoedd a ddyrannwyd yn benodol ar gyfer tai o fewn y CDLI. Dylai'r dwyseddau hyn gael eu cyflawni os yn bosibl. Yn ystod y broses ddylunio, os daw hi'n amlwg nad oes modd cyflawni'r dwysedd penodol neu y gellid mynd y tu hwnt i'r dwysedd hwnnw, dylech siarad â'ch ACLI cyn cyflwyno cais cynllunio a chyfiawnhau'r newid. Mae'r Rhestrau Safleoedd Dyranedig a Datganiadau'r

Grwpiau Aneddiadau i'w gweld yng Nghyfrrol 2B y CDLI (<http://www.ceredigion.gov.uk/CDLI>), ac maent yn cynnwys y dwyseddau argymelledig ar gyfer y safleoedd a neilltuwyd.

Os yw'ch safle yn 'hap-safle' h.y. safle o fewn Canolfan Wasanaethu nad yw wedi'i neilltuo, mae Datganiadau'r Grwpiau Aneddiadau yn darparu dwysedd argymelledig ar gyfer hap-safleoedd (gweler Cyfrrol 2B y CDLI (<http://www.ceredigion.gov.uk/CDLI>)).

Yn ystod cyfnodau cyntaf y broses ddylunio, a hynny mewn perthynas ag unrhyw ddatblygiad preswyl mae'n hollbwysig ystyried pa fathau o anheddau yr ydych yn bwriadu eu darparu. Mae **Polisi LU02: Gofynion o ran Pob Datblygiad Preswyl** yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparu cymysgedd o anheddau gwahanol er mwyn helpu i gyflawni cydbwysedd o stoc tai.

Mae datblygiad preswyl sydd wedi'u ddylunio'n dda ac sy'n cynnwys cymysgedd o anheddau gwahanol yn gwneud safle yn fwy diddorol ac, yn y pen draw, yn lle mwy dymunol i fyw ynddo. Mae safle sy'n cynnwys gwahanol fathau o anedd yn cynnig amrywiaeth, gan ddenu gwahanol fathau o breswylwyr e.e. parau ifanc, teuluoedd, pobl hŷn ac ati, sy'n creu ardal breswyl fywiog a chymdeithasol gynhwysol.

Mae tri phrif fath o anedd:

- Tŷ sengl;
- Tŷ pâr;
- Tŷ teras.

Yn ddiweddar, mae datblygiadau newydd yng Ngheredigion wedi cynnwys llawer o dai sengl mawr ac ychydig o dai pâr. Er mwyn sicrhau cymysgedd briodol a chyflawni'r dwyseddau a amlinellir yn y CDLI, anogir datblygiad sy'n cynnig cymysgedd o dai sengl (bach a chanolig), tai pâr a thai teras.

Mae datblygiadau teras (tai tref) yng Ngheredigion i'w gweld yn Aberaeron, Aberystwyth a'r Ceinewydd. Yn anffodus, nid yw datblygiadau diweddar wedi

parhau i ddefnyddio'r arddull hon, er ei fod yn ffordd wych o gyflawni dwysedd uwch.

Un o'r problemau sy'n gysylltiedig â datblygiadau teras yw eu bod yn draddodiadol wedi golygu eiddo bach (er nad yw hyn yn wir yng Ngheredigion), problemau sŵn a llai o breifatrwydd.

Fodd bynnag, gyda'r safonau adeiladu newydd sydd bellach ar waith, bydd sŵn yn cario o'r naill eiddo i'r llall yn llai o broblem o lawer. O ran gofod amwynder preifat, gellir cyflawni hyn yn hawdd trwy gael gerddi preifat gyda waliau neu ffensys o'u cwmpas – fel sy'n digwydd gyda thŷ pâr.

Mae datblygiad teras yn cynnig pob math o fanteision, gan gynnwys:

- Rhatach o gymharu â thai pâr a thai sengl;
- Rhatach i'w gwresogi – llai o waliau allanol;
- Band Treth Gyngor is o bosibl;
- Mwy o gysylltiad cymdeithasol â chymdogion o gymharu â thai sengl.

Er bod tai teras wedi'u dylunio i edrych yr un fath yn y gorffennol, nid oes rhaid gwneud hyn mewn datblygiadau modern. Gall gwahanol liwiau a deunyddiau gyflwyno amrywiaeth ddiddorol i'r strydlun.

Yn ogystal, nid oes rhaid i dai teras fod yn anheddau dau neu dri llawr; mae modd adeiladu tai teras un llawr a all helpu i ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio yn y Sir a chaniatáu i safle gael ei ddefnyddio'n effeithiol o ran tir.

Mae tai sengl yn defnyddio mwy o dir na mathau eraill o annedd. Er mai tŷ sengl yw'r annedd mwyaf dymunol yn aml, mae yna ffyrdd mwy effeithlon o ddatblygu'r math hwn o eiddo. Er enghraifft, mae tai sengl cyswllt yn gwneud defnydd mwy effeithlon o dir. Er bod hyn yn golygu bod yr eiddo ynghlwm wrth eiddo arall, fel arfer maent wedi'u cysylltu trwy garej. Mae hyn yn golygu bod prif ystafelloedd yr anheddau yn cael eu cadw ar wahân, felly maent yn dal i gael eu hystyried fel tai 'sengl'.

Ar y cyfan, mae'n bwysig ystyried y gymysgedd a'r dwysedd wrth ddylunio eich safle gan eu bod yn mynd law yn llaw a bod rhaid eu hystyried gyda'i gilydd er mwyn sicrhau dyluniad cyfannol.

Cwestiynau i'w Gofyn i chi'ch Hun

Diben y cwestiynau hyn yw eich helpu i ddeall yr hyn sy'n gadarnhaol ac yn negyddol am ardal; bydd hynny yn ei dro'n eich helpu chi i ddylunio datblygiad a fydd yn adeiladu ar sail yr elfennau cadarnhaol ac a fydd, gobeithir, yn milwrio yn erbyn yr elfennau negyddol.

Yn ogystal â chymeriad yr ardal, mae deall yr hyn y mae'r lle hwnnw yn ei gynnig i bobl yn eu gweithgareddau beunyddiol hefyd yn rhan bwysig o gyd-destun ardal. Eto, bydd angen i chi edrych ar y safle ac asesu sut rydych chi'n gweld datblygiad yn gweithio yno.

Gallwch ddefnyddio'r atebion i'r cwestiynau hyn i lywio'r Datganiad Dylunio a Mynediad, sy'n ofynnol fel rhan o gais cynllunio.

- Beth yw'r arddull bensaernïol lleol? A oes yna arddull glir e.e. Sioraidd, neu a oes yna gymysgedd?
- Sut mae adeiladau presennol wedi'u gosod e.e. a ydynt wedi'u gosod gyda lle rhyngddynt a'r ffordd, gyda gerddi o'u blaen neu a ydynt i gyd yn wahanol?
- Pa mor uchel yw'r adeiladau cyfagos?
- Pa fath o doeau sydd ganddynt?
- Pa ddeunyddiau a ddefnyddir yn yr ardal e.e. cerrig, brics, rendrad? A ydynt i gyd yr un fath neu a oes yna gymysgedd?
- A oes yna fwy o un math o adeilad nag eraill e.e. tai sengl, tai teras, byngalos? A yw hyn yn gwneud yr adeiladau'n ddiddorol neu'n ddiflas?
- A yw'r adeiladau'n blaen, heb lawer o fanylion neu a oes yna lawer o fanylion?

- Sut bethau yw'r ffenestri? A ydynt yn fertigol neu'n llorweddol o ran cyfrannedd? A oes yna ffenestri crom neu ffenestri dormer? A ydynt i gyd yn cyd-fynd â'i gilydd o ran cyfrannedd?
- A oes gan yr ardal gymeriad cryf neu nodweddion y gellid eu hymgorffori yn eich dyluniad, efallai trwy ddefnyddio deunyddiau, uchder adeiladau ac ati.
- A yw cymeriad yr ardal yn ddi-fflach fel nad yw'n ychwanegu fawr ddim at yr ardal ac felly byddai cymeriad newydd yn welliant cadarnhaol?
- A oes unrhyw adeiladau ar y safle? A oes gan yr adeiladau bensaernïaeth ddiddorol? A ellid eu hailwampio?
- Beth yw tirwedd yr ardal? A yw'n wastad? A yw ar oleddf, a all y dyluniad ymgorffori'r goleddf er mwyn darparu datblygiad teras, er enghraifft, fel y datblygiad yn y Ceinewydd?
- A ydych chi wedi asesu ecoleg y safle? Pa gyfyngiadau mae'r asesiad wedi'u nodi?
- A yw'r safle'n weladwy iawn? A oes modd ei weld o safbwynt y tu hwnt i un lleol yn unig?
- A yw'r safle'n agored i brifwyntoedd? Os felly, sut all dyluniad y datblygiad leihau effeithiau'r gwyntoedd hyn?
- A yw'r safle'n ffinio â'r ffurf adeiledig bresennol? Sut y gellir mynd i'r afael â materion megis preifatrwydd a chysgodi?
- A oes unrhyw ddulliau o ddefnyddio eiddo cyfagos y bydd angen i'r datblygiad newydd gael ei sgrinio rhagddynt?
- Sut y bydd modd cael mynediad i'r safle?
- A oes yna lwybrau presennol yn croesi'r safle?
- A oes cysylltiadau â'r rhwydweithiau cerdded/beicio presennol?

3. Y Dreftadaeth Adeiledig

Bil Treftadaeth Cymru: Bydd y Bil Treftadaeth a'r mesurau cysylltiedig yn anelu at foderneiddio a symleiddio rheolyddion a gwneud diogelu'n fwy effeithiol lle bo angen. Caiff y Bil Treftadaeth ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod Gwanwyn 2015. Mae'n bwysig cyfeirio at y ddogfen hon pan wneir cais am ganiatâd Adeilad Rhestredig.

Ardaloedd Cadwraeth ac Adeiladau Rhestredig

Ardaloedd Cadwraeth

Mae treftadaeth adeiledig gryf yng Ngheredigion ac o'r herwydd mae yma dair ar ddeg o ardaloedd cadwraeth. Mae Ardaloedd Cadwraeth yn golygu ardaloedd o 'ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu'u hymddangosiad.' Os ydych yn byw mewn ardal gadwraeth efallai y bydd yr hawliau datblygu a ganiateir i chi o dan gyfyngiad. Mae 13 o Ardaloedd Cadwraeth yng Ngheredigion ar hyn o bryd:

- Aberaeron
- Aberystwyth
- Adpar
- Aberteifi
- Cenarth
- Llanbedr Pont Steffan
- Llanbadarn Fawr
- Llanddewibrefi
- Llandysul
- Llanrhystud
- Llansanffraid / Llan-non
- Y Ceinewydd
- Tregaron

Cafodd llawer o'r ardaloedd cadwraeth sydd yng Ngheredigion eu dynodi yn ystod y 1960au, ac nid yw'r rhesymau dros y dynodiadau hyn wedi'u hesbonio'n fanwl. Fodd bynnag, mae gan y tair ardal gadwraeth ganlynol arfarniadau fel ardaloedd cadwraeth:

- Aberteifi

- Tregaron
- Llanddewibrefi

Dros y blynyddoedd nesaf, bydd yr Awdurdod Lleol yn adolygu ardaloedd cadwraeth y sir, ac efallai y bydd yn ystyried dynodi rhai newydd. Os oes arfarniad cyfredol o ardal gadwraeth i'w gael mae'n bwysig cyfeirio ato gyda'r cais cynllunio. Dylid defnyddio'r wybodaeth a'r canllawiau a roddir yn arfarniad yr ardaloedd gadwraeth wrth ddylunio datblygiad newydd.

Gallwch weld arfarniadau o'r ardaloedd cadwraeth cyfredol ar wefan y Cyngor: www.ceredigion.gov.uk. Oherwydd bod arfarnu ac asesu ardaloedd cadwraeth yn brosiect sy'n dal i fynd rhagddo mae'n bwysig eich bod chi'n troi at wefan y Cyngor www.ceredigion.gov.uk i weld a oes unrhyw ddogfennau newydd ar gael ynghylch ardaloedd penodol.

Mae Cadw wedi llunio adroddiad sy'n disgrifio cymeriad Aberystwyth: 'Aberystwyth: Deall Nodweddion Trefol', sydd ar gael i'w lawrlwytho ar wefan Cadw; a gallwch ddefnyddio'r ddolen sydd ar wefan y Cyngor www.ceredigion.gov.uk Gall y ddogfen hon gael ei defnyddio i lywio cynlluniau a datblygiadau yn ardal Aberystwyth a dylid ei hystyried yn gynnar yn y broses ddylunio.

Os ydych chi'n ystyried gwneud gwaith dymchwel mewn ardal gadwraeth, bydd angen caniatâd ardal gadwraeth arnoch.

Yr Hyn y Dylech ei Ystyried

Wrth ddylunio datblygiad newydd sydd mewn ardal gadwraeth neu'n agos at adeilad rhestredig, bydd angen i chi asesu cymeriad yr ardal a'r adeilad.

Ar gyfer adeilad rhestredig, mae hyn yn golygu gwerthuso'r canlynol:

- Arddull – i ba oes mae'r bensaernïaeth yn perthyn, Fictoraidd, Sioraidd ac ati.
- Cymesuredd – pa mor fawr yw'r adeilad, a yw'n llanw'r llain gyfan
- Graddfa – a yw'r adeilad yr un faint â'r adeiladau o'i gwmpas, a yw'n fwy neu'n llai?

- Cyflwr – cyflwr da neu wael
- Arwyddocâd – a yw'n rhan o gofrestrriad grŵp neu a oes gan yr adeilad gofrestrriad annibynnol?

Os ydych chi'n datblygu mewn ardal gadwraeth dylech chi ystyried y canlynol:

- I ba raddau mae'r datblygiad arfaethedig yn gweddu i'r ardal gadwraeth ac yn ei gwella
- I ba raddau mae'r datblygiad arfaethedig yn adlewyrchu nodweddion gofodol ac adeileddol yr ardal gadwraeth
- I ba raddau mae'r lleoliad, graddfa, uchder, ffurf, manylion a deunyddiau'r adeilad yn adlewyrchu a gwella'r ardal gadwraeth

Mae hi hefyd yn bwysig ystyried sut y gall y datblygiad effeithio ar olygfeydd i'r safle ac o'r safle. A fydd y datblygiad arfaethedig yn newid golygfa bwysig? Os felly, a oes modd ail-ddylunio'r datblygiad i unioni'r materion hynny?

Yn y pen draw, mae'n hollbwysig bod y datblygiad arfaethedig yn gwella'r ardal gadwraeth neu'r adeilad rhestredig.

Gweler: Cylchlythyr 61/96 y Swyddfa Gymreig: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol a'r Ardal Gadwraeth.

Gorchmynion Cadw Coed (TPO) a Choed mewn Ardaloedd Cadwraeth

Mae llawer o goed a choetiroedd yng Ngheredigion yn cael ei gwarchod gan Orchmynion Cadw Coed (TPO). Gosodir Gorchmynion Cadw Coed (TPO) ar goed, grwpiau o goed a choetiroedd gan ddibynnu ar eu gwerth tirweddol ac amwynderol. Mae oddeutu 200 o Orchmynion Cadw Coed (TPO) ar waith yng Ngheredigion. Yn gryno, mae Gorchmynion Cadw Coed yn rhwystro neb rhag torri na thocio (neu unrhyw waith penodedig arall) coed oni cheir caniatâd yr awdurdod lleol yn gyntaf.

Caiff coed mewn Ardaloedd Cadwraeth eu gwarchod hefyd: mae'n rhaid rhoi 6 wythnos o rybudd i'r awdurdod lleol cyn gwneud dim gwaith mewn ardal gadwraeth. Mae'r cyfnod hwnnw'n rhoi cyfle i'r Cyngor ystyried y cynigion.

Caiff coed eu gwarchod gan ganiatâd trwyddedau cwmpo coed hefyd sydd ar gael gan y Comisiwn Coedwigaeth. I gael mwy o wybodaeth gweler y wefan ganlynol: <http://www.ceredigion.gov.uk>

Adeiladau Rhestredig

Mae gan Geredigion oddeutu 1888 o adeiladau rhestredig. Os oes gan eich adeilad chi nodweddion hanesyddol neu bensaernïol arbennig yna mae'n bosibl ei fod yn adeilad rhestredig. Mae tri gwahanol fath o adeiladau rhestredig:

- Gradd II: O ddiddordeb arbennig (mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau rhestredig yn perthyn i'r category hwn).
- Gradd II*: O ddiddordeb neilltuol (mae lleiafrif bach o'r adeiladau rhestredig yn perthyn i'r category hwn).
- Gradd I: O ddiddordeb eithriadol (mae lleiafrif bach iawn o'r adeiladau rhestredig yn perthyn i'r category hwn).

Adeiladau rhestredig yw'r adeiladau hynny sydd wedi'u hasesu o dan y meini prawf sydd yng Nghylchlythyr 61/96 Llywodraeth Cymru, 'Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth', a Chylchlythyr 1/98, 'Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Cyfarwyddiadau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru'. I weld y cylchlythyrau hyn, defnyddiwch y dolenni isod:

<http://wales.gov.uk>

Dyma'r prif feini prawf:

- **Diddordeb pensaernïol:** adeiladau sy'n bwysig i'r genedl oherwydd eu dyluniad pensaernïol, eu haddurniad a'u crefftwaith
- **Diddordeb hanesyddol:** adeiladau sy'n dangos agweddau pwysig ar hanes cymdeithasol, economaidd, diwylliannol neu filwrol y genedl
- **Cysylltiadau hanesyddol:** mae'r adeilad yn gysylltiedig â phobl neu ddigwyddiadau sy'n bwysig i Gymru

- **Gwerth grŵp:** mae gan yr adeiladau undod pensaernïol neu hanesyddol pwysig neu maent yn enghraifft dda o gynllunio.

Os yw adeilad yn adeilad rhestredig, mae hynny'n berthnasol i'r adeilad cyfan, ac nid i olygon blaen yr adeilad yn unig. Mae'n cynnwys y tu mewn i'r adeilad ac unrhyw adeiladau neu adeileddau eraill ar dir (neu o fewn 'cwrtil') yr adeilad rhestredig. Fel rhan o'r rhestriad, mae 'disgrifiad o'r rhestriad' i'w gael; noder mai adnabod yr eiddo yw diben y disgrifiad hwnnw, ac felly, os oes nodweddion o'r adeilad heb eu crybwyll peidiwch â thybio nad oes gwerth iddynt.

Os ydych chi'n bwriadu gwneud gwaith ar adeilad rhestredig, bydd angen caniatâd adeilad rhestredig arnoch chi. Mae'n bwysig cyfeirio hefyd at baragraff 70 Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig '61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth'. Mae'r cylchlythyr hwnnw'n rhoi gwybodaeth glir i chi ynghylch yr hyn y gellir ei wneud a'r hyn na ellir ei wneud i adeiladau rhestredig ac adeiladau sydd mewn ardaloedd cadwraeth.

Nid yw'r ffaith bod eiddo mewn ardal gadwraeth neu'i fod yn adeilad rhestredig yn golygu na ellir gwneud newidiadau iddo neu fod adeiladau wedi'u 'rhewi' mewn amser. Gall adeiladau rhestredig gael eu haddasu, eu hymestyn a hyd yn oed eu dymchwel yn unol â'r canllawiau cynllunio cenedlaethol. Fodd bynnag, cofiwch ei bod yn drosedd addasu, ymestyn neu ddymchwel adeilad rhestredig mewn unrhyw ffordd, ar y tu mewn ac ar y tu allan, a fyddai'n effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig heb ganiatâd adeilad rhestredig.

Os ydych yn bwriadu gwneud unrhyw waith i adeilad sydd mewn ardal gadwraeth neu i adeilad rhestredig, dylech edrych ar wefan y Porth Cynllunio i gael gwybodaeth am y rheoliadau a'r polisiau presennol:

<http://www.planningportal.gov.uk/planning/appeals/otherappealscasework/listedbuildingconserv>

O ddatblygu adeilad rhestredig neu mewn ardal gadwraeth dylai'r datblygiad warchod a gwella'r ardal a/neu'r adeilad. Fel rhan o gais cynllunio, bydd yr ACLI yn disgwyl datganiad treftadaeth sy'n cynnwys y canlynol:

- Disgrifiad o'r ased treftadaeth a'i leoliad;
- Aseiad o arwyddocâd yr adeilad/ardal;
- Esboniad o gysyniad dylunio'r datblygiad arfaethedig;
- Disgrifiad o effaith uniongyrchol y datblygiad arfaethedig ar yr adeilad/ardal;
- Disgrifiad o'r effaith ar y lleoliad;
- Disgrifiad o'r effaith ar archaeoleg.

Rheoliadau Adeiladu ac Adeiladau Rhestredig

Grŵp o ddogfennau sy'n offerynnau statudol yw Rheoliadau Adeiladau a osodir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu ac ymestyn y rhan fwyaf o adeiladau newydd a nifer o newidiadau i'r adeiladau presennol, gan gynnwys adeiladau rhestredig at y diben o sicrhau safonau rhesymol lle mae iechyd a diogelwch yn y cwestiwn.

Mae'r Rheoliadau Adeiladu'n berthnasol i waith adeiladu newydd yn unig ac nid oes rheidwydd i wella pob adeilad newydd i gyrraedd y safonau hynny. Os nad oedd yr adeilad yn cydymffurfio â'r Rheoliadau cyn y newidiadau, dylid gwneud y newidiadau yn y fath fodd fel na fydd sefyllfa'r adeilad yn anfoddfaol mwyach o ran cydymffurfio â'r Rheoliadau.

Mae Dogfen Gymeradwy L1B Llywodraeth Cymru: Arbed tanwydd ac ynni (yn yr anheddau presennol) yn dweud: 'Mae angen i unrhyw waith a wneir ar adeiladu o'r fath gydymffurfio â'r gofynion sydd o ran effeithlonrwydd ynni cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol. Wrth ystyried yr hyn sy'n rhesymol ymarferol, ni ddylai'r gwaith newid nac amharu mewn modd annerbyniol ar gymeriad yr adeilad na chynyddu'r risg o ddirywiad tymor hir.'

Dylid ystyried y canllawiau technegol manwl sy'n ymwneud â gweithredu'r mesurau y mae English Heritage wedi eu llunio lle mae effeithlonrwydd ynni

yn y cwestiwn wrth bennu safonau perfformiad priodol o ran ynni ar gyfer gwaith adeiladu ar yr anheddau presennol. Gweler y rhestr o'r dogfennau canllaw sydd ar gael <http://www.english-heritage.org.uk>.

Treftadaeth Adeiledig Ceredigion

Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig

Cofrestr dreftadol o'r parciau a'r gerddi hanesyddol o bwys sydd yng Nghymru yw Cofrestr Cadw / ICOMOS o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru. Caiff y safleoedd eu dosbarthu yn ôl graddau I, II* a II yn ôl eu pwysigrwydd, yn yr un modd â'r Adeiladau Rhestredig.

Mae 12 o barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig yng Ngheredigion:

1. Llan Llŷr – Gradd II
2. Rhyd y Golomen a'r Ardd â Wal o'i Hamgylch - Gradd II
3. Allt yr Odyn - Gradd II
4. Prifysgol Cymru, Aberystwyth: Plas Penglais, Campws Penglais a Champws Llanbadarn; Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Gradd II*
5. Derry Ormond - Gradd II
6. Hafod - Gradd II
7. Llanerchaeron - Gradd II
8. Nant Eos - Gradd II*
9. Trawsgoed - Gradd II
10. Lodge Park - Gradd II
11. Coedmor - Gradd II
12. Castell Aberteifi - Gradd II

Mae cofrestriad yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio; mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried buddiannau hanesyddol safleoedd wrth benderfynu a ddylid rhoddi caniatâd ar gyfer unrhyw newidiadau ai peidio: Mwy o wybodaeth: <http://cadw.wales.gov.uk>

Ailddefnyddio'r Adeiladau Diddefnydd Presennol

Mae atgyweirio, addasu ac aildefnyddio'r adeiladau diddefnydd sydd ohoni'n cyfrannu at ddiogelu'r ynni sydd wedi ei gorffori yn yr adeiladau hynny ac mae'n gwarchod rhag creu gwastraff diangen. Mae cyfaddasu'n gynaliadwy o'i gymharu ag adeiladu o'r newydd ac mae'n bwysig o ran cynyddu lefel a math y stoc dai sydd yn y Sir. Mae Polisi LU07: Isrannu'r Anheddau Presennol a Pholisi LU09: Ailddefnyddio Hen Anheddau/Murddunod y CDLI

yn ymdrin ag amrywiol amgylchiadau lle gallai cyfaddasu fod yn briodol. Mwy o wybodaeth: <http://www.ceredigion.gov.uk/ldp>

Adeiladau Clom

Dull adeiladu hynafol a ddefnyddid yng Nghymru a Cheredigion yw adeiladau clom, ac mae rhai enghreifftiau i'w gweld o hyd. Yn draddodiadol, byddai waliau adeilad wedi'u gwneud o bridd, gwellt, blew anifeiliaid a dŵr o'r ardal gyfagos.

Ystyrir bod y dull clom yn ecogyfeillgar gan ei fod yn defnyddio deunyddiau naturiol toreithiog h.y. pridd, gwellt ac ati. Oherwydd bod y deunyddiau ar gael yn lleol, bydd llai o effeithiau o ran teithio a defnyddir llai o'r ynni corfforedig. Mae'n ddull da iawn hefyd o ran inswleiddiad thermol.

Mae'r dull clom yn esgor ar adeilad gyda waliau allanol galed a chryf iawn, er bod angen diogelu'r adeilad rhag curlaw oherwydd mi wnaiff ei erydu yn y pen draw.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r dull adeiladau cob wedi gweld adfywiad ac mae'n dod yn ddull adeiladu poblogaidd. Rhan o'i boblogrwydd yw'r ffaith bod modd creu siapiau a ffurfiau diddorol oherwydd ei hyblygrwydd.

Er ei fod yn ddull adeiladu traddodiadol, bydd angen i'r adeilad fodloni Rheoliadau Adeiladu heddiw a bydd angen yswiriant arnoch ar y tŷ a'r eiddo.

Adeiladau a Gysgodir gan y Ddaear

Mae adeilad a gysgodir gan y ddaear yn defnyddio'r ddaear fel blanced inswleiddio sy'n ei ddiogelu rhag eithafon y tymheredd, y gwynt, y glaw a thywydd eithafol. Mae cartref a gysgodir gan y ddaear yn effeithlon o ran ynni, mae'n dawel, mae'n gwrthsefyll rhew ac nid oes angen llawer o waith cynnal a chadw arno. Mae cartref a gysgodir gan y ddaear yn ymdoddi i'r amgylchedd naturiol, gan ganiatáu mwy o le ar gyfer iard a mwy o le i fywyd gwylt. Dyma brif fanteision adeilad a gysgodir gan y ddaear:

- Llai agored i effaith tymheredd eithafol;

- Llai o waith cynnal a chadw y tu allan, megis peintio a glanhau cafnau;
- Seinglosio naturiol;
- Y gallu i ymdoddi i'r dirwedd.

Oherwydd bod adeiladau a gysgodir gan y ddaear yn ddatblygiad arbenigol, argymhellir y dylech ofyn cymorth pensaer proffesiynol a datblygwr sy'n arbenigo yn y math hwn o ddatblygiad. Mae hefyd yn bwysig cofio y bydd angen i'r adeilad fodloni'r Rheoliadau Adeiladu a bydd angen yswiriant cartref ac eiddo arnoch o hyd.

Archeoleg

Ymgynghorir ag Archeoleg Dyfed ynghylch unrhyw geisiadau sy'n agos at Henebion Rhestredig neu geisiadau a allai effeithio ar safleoedd archeolegol hysbys. Mae'n dibynnu ar y math o gais sydd dan sylw, ond gallent ofyn am gynnal archwiliadau archeolegol cyn penderfynu ar unrhyw gais neu ofyn am amodau cynllunio sy'n ymwneud â chofnodi nodweddion archeolegol yn ystod y gwaith adeiladu. Mwy o wybodaeth: <http://www.dyfedarchaeology.org.uk/>

4. Symudiadau

Mae'r gallu i symud o gwmpas neu drwy le (symudiad) yn effeithio ar y ffordd y mae'r lle hwnnw'n cael ei ddefnyddio, y gweithgareddau a gynhelir yno, sut y bydd yn datblygu yn y dyfodol a 'naws' gyffredinol y lle.

Mae tri pholisi yn y CDLI sy'n mynd i'r afael â theithio a symud:

- DM03: Teithio Cynaliadwy;
- DM04: Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel ystyriaeth berthnasol; a
- DM09: Dylunio a Symud.

Dylech chi hefyd ddarllen y canllawiau canlynol:

- Y Llawlyfr Strydoedd
- Canllawiau Cynllunio Atodol Cyngor Sir Ceredigion: Asesiadau Trafnidiaeth

- Canllawiau Cynllunio Atodol Cyngor Sir Ceredigion: Safonau Parcio
- Safonau Parcio Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru 2008

Er mwyn i'ch datblygiad fod yn groesawgar, mae'n hollbwysig ei fod yn cael ei ddylunio ar gyfer y bobl a fydd yn ei ddefnyddio.

Ar ddiwedd yr adran hon, mae set o gwestiynau y gallwch chi eu defnyddio i'ch helpu chi asesu'r gofod yr ydych chi am ei ddatblygu. Os defnyddiwch chi'r cwestiynau hyn, gallant eich helpu chi gyda'r Datganiad Dylunio a Mynediad sydd angen ei gyflwyno fel rhan o'r cais cynllunio.

4.1. Cynllun yr Ardaloedd Preswyl

Mae cynllun yn cael dylanwad mawr ar sut mae pobl yn dewis teithio neu symud trwy ardal. Mae cynllun strydoedd, gofodau ac adeiladau yn allweddol er mwyn cyflawni dyluniad o safon uchel. Os yw cynllun y datblygiad yn anghywir, beth bynnag fo ansawdd dyluniad datblygiad neu adeilad, ni fydd yn gweithio cystal ag y gallai.

Mae gan Geredigion lawer o wahanol fathau o gynllun, ond mae modd eu rhannu'n ddau gategori'n fras:

- Rhwydweithiau traddodiadol: afreolaidd a rheolaidd; a
- *Cul-de-sac*.

Er mwyn darparu gofod amwynder digonol ac atal eiddo rhag edrych dros eiddo arall, dylid dilyn y canllawiau canlynol:

- Bwlch o 21 metr rhwng ffenestri ystafelloedd byw sy'n wynebu ei gilydd;
- Bwlch o 10.5 metr rhwng prif ffenestri a wal noeth; a
- Dyfnder o 10 metr i bob gardd.

Gellid lleihau'r mesuriadau hyn os bydd cynllun tirweddu'n helpu i atal eiddo rhag edrych dros un arall (gweler Adran 4: Tirweddu yn y Canllawiau hyn) ac os bydd mannau agored wedi'u darparu (gweler y Canllawiau ar Fannau Agored) o fewn y datblygiad.

Rhwydweithiau Traddodiadol


Yn gyffredinol, ystyr rhwydweithiau traddodiadol yw gridiau syml o strydoedd sy'n cysylltu â'i gilydd. Gallant fod yn rheolaidd iawn, gan greu 'blociau' siâp petryal neu sgwâr (sy'n nodweddiadol yn UDA) neu'n afreolaidd, gan greu pob math o wahanol siapiau.

Mantais rhwydweithiau traddodiadol yw bod pobl yn gallu symud trwyddynt yn hawdd a bod llefydd wedi'u cysylltu'n dda, gan ddarparu llwybrau uniongyrchol. Fel arfer, mae anheddau'n wynebu'r stryd, felly mae yna deimlad cyffredinol eu bod yn 'ddiogel'.

Mae ffigurau 10 a 11 isod yn dangos y patrwm grid traddodiadol yn Aberaeron.



Mae ffigurau 12 a 13 yn dangos y patrwm grid afreolaidd yn Nhregaron.



Cul-de-sac

Mae dyluniad nodweddiadol *cul-de-sac*, sy'n gysylltiedig â datblygiadau tai dros y degawdau diwethaf, yn golygu un pwynt mynediad gyda thair o'i gwmpas. Mae ffigurau 14 a 15 yn dangos datblygiad *cul-de-sac* yn Llannarth.



Un o elfennau cadarnhaol datblygiad *cul-de-sac* yw ei fod yn dawel yn aml ac yn fwy diogel gan mai dim ond un ffordd sydd i mewn ac allan ohono (nid oes ffordd o fynd trwyddo, felly dim ond preswylwyr a phobl sy'n gwasanaethu neu'n ymweld â'r bobl hynny sy'n defnyddio'r ffordd). Fodd bynnag, mae yna rai problemau yn gysylltiedig â'r math hwn o gynllun.

Yn gyntaf, ychydig iawn o gysylltiad sydd rhwng un *cul-de-sac* a'r nesaf, felly mae'n anoddach i bobl fynd o un lle i'r llall ar droed. Yn aml, yr unig ffordd o gerdded mewn *cul-de-sac* yw trwy ddilyn y ffordd. Mae'r rhan fwyaf o ddatblygiadau *cul-de-sac* wedi'u dylunio gyda symudiadau car fel y prif ddull trafnidiaeth, yn hytrach na cherdded. Gall y ffaith mai dim ond un ffordd sydd i mewn ac allan o'r *cul-de-sac* beri problemau o ran ceisio cyrraedd/gadael stad er mwyn cael mynediad i wasanaethau lleol ac ati.

Yn ail, mae llawer, os nad pob un o'r adeiladau mewn *cul-de-sac* yn edrych yr un fath ac mae'n gallu bod yn anodd i rywun ddod o hyd i'r hyn y mae'n chwilio amdano. Mae'r diffyg cymysgedd hwn yn y mathau o annedd yn creu strydun anniddorol braidd.

Gellir goresgyn y problemau hyn yn hawdd trwy ystyried pobl yn ogystal â cheir. Bydd creu cysylltiad trwy'r safle i ardaloedd eraill sydd i'w weld yn naturiol o anheddau e.e. i'r prif lwybr troed neu ddatblygiadau eraill, yn caniatáu i bobl symud drwy'r datblygiad ar droed neu ar feic.

Yn ogystal, trwy ddarparu cymysgedd o wahanol fathau o annedd e.e. tai teras, tai pâr, byngalos, bydd y strydlyn yn fwy diddorol a bydd gan ddatblygiadau *cul-de-sac* unigol eu hunaniaeth eu hunain yn hytrach na bod yn un o lu o ddatblygiadau *cul-de-sac* tebyg yn yr un ardal.

4.2. Eglurder

Mae angen i ddatblygiadau fod yn hawdd eu deall fel y gall pobl deithio o gwmpas a thrwy'r datblygiad yn hawdd; dyma yw ystyr eglurder.

Mae strwythur datblygiad o ran ei strydoedd, ei ffurf adeiledig a gofodau yn creu delwedd o le a gall helpu i sefydlu hunaniaeth a chymeriad lle a'r ffordd y caiff ei weld gan eraill. Os na fydd lle yn hawdd ei ddeall, bydd pobl yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r hyn maent yn chwilio amdano gan na fydd hi'n amlwg pa ffordd sy'n arwain at stryd arall neu stryd bengaead. Gall olygu hefyd nad oes gan le hunaniaeth glir a'i fod yn cael ei ystyried fel lle diflas neu mewn ffordd negyddol, fel 'y stad yna drws nesa i'r gefnffordd'. Dyma rai elfennau a fydd yn helpu i wella eglurder:

- Swyddogaeth symud y strydoedd, a atgyfnerthir gan ddyluniad y strydoedd, tir y cyhoedd a graddfa a ffurf yr adeiladau;
- Bod y datblygiad yn gweddu i batrwm presennol tirwedd, strydoedd a ffyrdd fel ei fod yn cysylltu â'r patrwm trefol/gwledig presennol;
- Dyluniad a lleoliad adeiladau blaenllaw er mwyn creu canolbwyntiau;
- Dyluniad a thirwedd gofodau a golygfeydd;
- Cysylltiadau â thirnodau a golygfeydd presennol;
- Cysylltiadau gweledol ar hyd ffyrdd, rhwng gofodau ac mewn lleoliadau blaenllaw, gyda gwaith tirweddu, goleuadau ac arwyddion priodol;
- Bod swyddogaeth lle neu adeilad yn amlwg.

Mae ffigur 16 yn dangos sut y gall adeilad gael ei ddefnyddio fel tirnod ac, er ei fod o wahanol faint, bod modd iddo weddu i'r adeiladau o'i gwmpas.



FFIGUR 16: DARLUN YN DANGOS GRADDFFA, CYFRANNEDD A CHYMESUREDD.

4.3. Hygyrchedd a Hwylustod wrth Symud

Mae llwyddiant datblygiad newydd yn dibynnu ar ba mor dda yw'r cysylltiadau i'r safle ac oddi yno. Dylid creu datblygiadau sy'n hygyrch i bawb ac sy'n cysylltu â'r ardaloedd cyfagos, gan sicrhau ei bod hi'n hawdd teithio o'r naill le i'r llall.

Mae hwylustod o ran symud o'r naill le i'r llall yn hollbwysig i fywiogrwydd lle a pha mor dda mae'n gweithio.

Erbyn hyn, rhaid i ddatblygiadau ystyried pob math o symudiad, ac nid symudiad ceir yn unig. Dylai symud ar droed, ar feic neu ar drafnidiaeth gyhoeddus fod mor hawdd a chyfleus â defnyddio'r car. Nid yw hyn yn golygu y dylai'r car gael ei allgau; yn hytrach, dylid creu cydbwysedd a sicrhau nad y car yw'r prif ffocws.

4.3.1. Mathau o gynllun a symudiad

Fel y nodwyd yn flaenorol, gall y ffordd mae lle yn cael ei ddylunio a'i gynllunio effeithio ar y ffordd mae pobl yn ei ddefnyddio ac yn symud trwyddo. Mae ffigur 17 yn dangos datblygiad *cul-de-sac* nodweddiadol yng Ngheredigion. Mae'r saeth yn dangos y pwynt mynediad a sut mae'n rhaid i bawb, boed ar droed ai peidio, ddefnyddio'r un llwybr hwn.



FFIGUR 17: DATBLYGIAD *CUL-DE-SAC* YN DANGOS Y SYMUDIAD I MEWN AC ALLAN O'R DATBLYGIAD.


Mae Ffigur 18 yn dangos y cynllun grid yn Aberystwyth. Fel y gellir gweld, mae yna sawl ffordd i mewn ac allan o'r ardal, gyda sawl pwynt cysylltu. Mae hyn yn darparu amgylchedd hygyrch y gall pobl symud drwyddo'n hawdd, felly mae mwy o bobl yn ei ddefnyddio.

Mae'r saeth goch yn dangos y prif lwybr i mewn i'r dref; er ei fod ar gyfer cerbydau yn bennaf, mae yna fynediad i gerddwyr hefyd. Mae'r saeth borffor yn dangos strydoedd eilaidd y mae modd eu cyrraedd o'r brif ffordd. Mae'r saeth las yn dangos y llinell glir a geir gyda chynllun grid. Byddai'r llinell uniongyrchol hon yn caniatáu i gerddwyr weld cyfeiriad teithio clir.



FFIGUR 18: CYNLLUN GRID ABERYSTWYTH

Mae hi hefyd yn bwysig ystyried symudiad o ran datblygiad annomestig. Mae ffigur 19 isod yn dangos y Stryd Fawr yn Aberystwyth.



FFIGUR 19: Y STRYD FAWR, ABERYSTWYTH

Mae'r saeth goch yn dangos y prif symudiadau, gan gerddwyr a cheir, ar hyd y Stryd Fawr yn Aberystwyth. Er mwyn darparu amgylchedd mwy diogel, mae mesurau wedi'u rhoi ar waith i ostegu'r traffig ar y rhan hon o'r ffordd ac mae'r palmentydd wedi'u newid i fod yn is er mwyn sicrhau bod cerddwyr yn

bresenoldeb gweladwy ar hyd y darn hwn o'r ffordd. Oherwydd hyn a natur gul y ffordd, mae gyrwyr yn tueddu i yrru'n araf. Mae gwneud y stryd yn ardal gymysg e.e. i gerddwyr a cherbydau, yn ei gwneud hi'n fwy bywiog ac atyniadol. Mae'r saethau porffor yn dangos y symudiadau ar hyd strydoedd eilaidd.

Wrth ystyried sut mae pobl yn symud, mae hi hefyd yn bwysig ystyried dyfodol safle. Mae angen i safle mawr gael ei ddylunio fel y gellir sicrhau mynediad i weddill y tir yn y dyfodol yn ôl yr angen. Mae ffigur 20 yn dangos safle yn Aberystwyth sydd wedi darparu ar gyfer datblygiad tir cyfagos yn y dyfodol yn ei ddyluniad. Mae'r saeth werdd yn dangos hyn.

Er bod y stad hon yn seiliedig ar egwyddorion *cul-de-sac*, mae yna bosibilrwydd y gellid darparu mwy nag un pwynt mynediad, fel y nodir gan y ddwy saeth las.



FFIGUR 20: CYNLLUNIO I'R DYFODOL

4.4. Symudiad Gwahanol

Mae'n hollbwysig bod datblygiadau newydd yn cael eu creu i fod yn strydoedd a llefydd sy'n ystyriol o gerddwyr a beicwyr. Y peth pwysig i'w gofio wrth ddylunio safle yw: Meddylwch am y lle sy'n cael ei ddatblygu, yn hytrach na'r car.

O ran gwahanol fathau o symudiad, mae modd eu rhannu fel a ganlyn; cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Gall y pwyntiau isod helpu i lywio sut mae'r safle'n cael ei ddatblygu a'r gwahanol fathau o symudiad y mae angen darparu ar eu cyfer.

Amgylchedd Cerdded a Beicio

Bydd pa mor ddeniadol a diogel yw datblygiad yn dylanwadu ar y tebygrwydd y bydd pobl yn cerdded neu'n beicio. Pan fo stryd wedi'i dylunio'n dda ac yn ymgorffori cyflymderau isel, gall cerddwyr, beicwyr a cherbydau ryngweithio'n ddiogel. Man cychwyn da ar gyfer ystyried strydoedd sy'n ystyriol o gerddwyr a beicwyr yw 'Egwyddorion y 5 'C':

- **Cysylltiadau:** A yw llwybrau cerdded da yn cysylltu'r llefydd mae pobl am fynd iddynt?
- **Cyfleustra:** A yw llwybrau'n uniongyrchol ac a yw croesfannau yn hawdd eu defnyddio?
- **Pleserus:** A yw llwybrau'n ddeniadol, yn olau ac yn ddiogel? A oes yna amrywiaeth ar hyd y stryd?
- **Cyfforddus:** Beth yw ansawdd a lled y llwybr ac a oes unrhyw rwystrau?
- **Amlygrwydd:** Pa mor hawdd yw hi i ddod o hyd i lwybr a'i ddilyn? A oes yna arwyddion i dywys defnyddwyr? (Urban Design Compendium, 2007)

Wrth ystyried dyluniad datblygiad, dyma rai elfennau i'w hystyried mewn perthynas â datblygu llefydd a fydd yn annog cerdded:

- **Gwneud cerddwyr yn weladwy:** gosod palmant a fydd yn gwneud cerddwyr yn weladwy i yrwyr, cerddwyr eraill a pherchnogion tai ac ati
- **Cysylltiadau da:** cysylltu â llwybrau cerdded presennol neu'r rhai o fewn y datblygiad
- **Croesfannau diogel:** croesfannau clir e.e. arwynebau uwch ar gyfer croesfannau, gwahanol ddeunydd ar arwynebau.
- **Amgylchedd deniadol:** planhigion, meinciau, pethau i'w gweld
- **Arwain at rywle y bydd pobl am fynd iddo:** gadewch i bobl gerdded i le maent yn dymuno mynd iddo e.e. man agored, siop ac ati, yn hytrach na dilyn y ffordd fawr
- **Mesurau i arafu trafndiaeth fodur:** cyflymderau arafach, cynlluniau ffordd sy'n gwneud i yrwyr deithio'n arafach

Wrth ystyried yr amgylchedd beicio, mae'n bwysig bod llwybrau'n ddiogel ac yn uniongyrchol, yn yr un modd ag ar gyfer cerdded. Dyma rai pwyntiau i'w hystyried:

- **Llwybrau clir, uniongyrchol:** dyluniwch lwybr sy'n tywys pobl i'r lle maent yn dymuno mynd iddo heb orfod disgyn oddi ar y beic yn aml
- **Strydoedd lle mae traffig wedi'i ostegu:** mae strydoedd â chyflymder is yn fwy ystyriol o feicwyr
- **Lonydd beicio:** ar strydoedd prysurach lle nad oes modd lleihau cyflymder, gall darparu lôn feicio ar wahân wedi'i nodi'n glir ar balmant presennol ac ati fod yn fuddiol
- **Man storio beiciau:** darparwch fannau storio diogel ar gyfer beiciau e.e. y tu allan i siopau, yn ymyl arosfannau bysiau ac ati.

Trafnidiaeth Gyhoeddus

Er mai sir wledig yw Ceredigion, mae gennym wasanaeth bws rheolaidd y gallwch fanteisio arno mewn amryw o ardaloedd. Mae annog pobl i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn gam pwysig o ran defnyddio dulliau teithio mwy cynaliadwy.

I helpu i annog pobl i ddal y bws, mae'n bwysig ei bod hi'n gyfleus i ddal y bws. Yn yr un modd â cherdded a beicio, mae hyn yn golygu'r canlynol:

- Sicrhau bod llwybrau i'r arhosfan bws yn glir, yn uniongyrchol ac yn ddeniadol;
- Lleoli arosfannau bws mewn mannau gweladwy e.e. siopau, cyffyrdd, ardal breswyl;
- Darparu cysgodfa ddeniadol; mae'n glawio'n aml yng Ngheredigion ac mae angen cadw pobl yn sych.

4.5. Strydoedd a Gofodau Da

Mae tir y cyhoedd yn cynnwys strydoedd a gofodau ac mae ar gael i'r gymuned ei ddefnyddio. Strydoedd a gofodau yw 'wyneb' anheddiad a dyma sy'n cyfarch defnyddwyr. Mae tir y cyhoedd sy'n ddeniadol yn gwella ansawdd bywyd pobl a barn pobl am le. Mae strydoedd a gofodau da yn defnyddio egwyddorion cymeriad, cynhwysiant, hwylustod symud, diogelwch ac eglurder, felly dylai datblygiadau newydd geisio cyflawni'r amcanion canlynol:

- Gwneud cyfraniad cadarnhaol at strydoedd a mannau cyhoeddus, gan helpu i atgyfnerthu eu pwysigrwydd cymharol yn y treflun cyffredinol.
- Gwneud cyfraniad cadarnhaol at strydoedd a mannau cyhoeddus fel llefydd deniadol ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol a gweithgareddau priodol.
- Cefnogi amgylchedd deniadol sy'n ystyriol o gerddwyr ar gyfer pawb.
- Cefnogi neu ddarparu strydoedd a gofodau ar dir y cyhoedd sydd wedi'u dylunio'n dda fel eu bod yn ddeniadol ac yn annog balchder mewn lle.
- Gwneud cyfraniad cadarnhaol at y strydlun.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, dylai datblygiad:

- Sicrhau cysondeb o ran ffyrntiadau strydoedd a gofodau; nid yw hyn yn golygu bod rhaid i bob adeilad edrych yr un fath, ond dylai fod yna gysylltiad rhwng y llinell adeiladu a phatrwm y stryd.
- Osgoi bylchau amhriodol neu salw rhwng adeiladau a gofodau agored nad oes modd eu defnyddio.

- Cefnogi amgylchedd deniadol i bawb sy'n ystyriol o gerddwyr nad yw'n canolbwyntio ar fynediad i gerbydau modur yn unig.
- Annog ffryntiadau bywiog mewn datblygiadau masnachol a defnydd cymysg, gan leihau nifer y waliau gwag a ffryntiadau 'marw' eraill.
- Sicrhau bod cerddwyr yn gallu cael mynediad diogel a chyfleus i'r cartrefi, y stryd a mannau cyhoeddus.
- Sicrhau bod cyfleusterau parcio oddi ar y stryd wedi'u dylunio fel nad ydynt yn tarfu nac yn amharu ar y treflun a'r dirwedd.
- Manteisio ar ochr mwyaf heulog y safle, gan ddarparu seddi ac ardaloedd gweithgaredd yn y lleoliadau hyn.
- Darparu cysgod rhag y gwynt mewn mannau cyhoeddus trwy leoli adeiladau priodol neu dirweddu.
- Darparu dodrefn stryd sy'n gweddu i'w gilydd a'r lleoliad.
- Integreiddio gwaith tirweddu gyda'r dodrefn stryd e.e. coed, perthi ac ati.
- Ystyried defnyddio celf cyhoeddus os yn briodol.
- Darparu mannau cysgodol yn enwedig mewn meysydd parcio.

Mae pobl yn fwy tebygol o ddefnyddio a mwynhau ardaloedd a strydoedd diogel. Dylid ystyried y ddwy egwyddor ganlynol mewn perthynas â phob datblygiad:

- Mae modd gweld mannau cyhoeddus o'r adeiladau o'u cwmpas; a
- Mae gwahaniaeth clir rhwng mannau cyhoeddus a phreifat.

Mae'r ddogfen '*Secured by Design*' gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yn canolbwyntio ar atal troseddu mewn cartrefi ac eiddo masnachol ac yn hyrwyddo'r defnydd o safonau diogelwch ar gyfer dibenion a chynhyrchion o bob math. Gellid defnyddio'r canllawiau yn y safonau hyn i ddylunio i helpu i atal troseddu. Mae'r ddogfen ar gael yma:

<http://www.securedbydesign.com/index.aspx>

I gael cyngor ynglŷn â chyfleusterau parcio, dylai datblygwyr droi at Ganllawiau Cynllunio Atodol Safonau Parcio Cyngor Sir Ceredigion + '*Park*

Mark - The Safer Parking Scheme, a ddatblygwyd gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, sy'n ceisio lleihau nifer y troseddau ac ofn troseddau mewn cyfleusterau parcio. Mae'r ddogfen ar gael trwy'r ddolen hon:

<http://www.britishparking.co.uk/Park-Mark---The-Safer-Parking-Scheme>

4.6. Nodweddion Strydoedd

Mae pob stryd yn wahanol, felly mae'r ffordd y maent yn cael eu defnyddio a'r patrymau symud yn wahanol hefyd. Fel rhan o unrhyw ddatblygiad newydd, mae'n hollbwysig eich bod yn asesu sut beth fydd y datblygiad a sut y gall y strydoedd adlewyrchu hyn.

Wrth ystyried y datblygiad a'i ddyluniad, y cwestiwn mawr yw **'beth fydd yn digwydd ar y stryd hon?'** Trwy wneud hyn, gallwch ddechrau dylunio'r strydoedd fel eu bod yn addas ar gyfer y gweithgareddau yr hoffech eu gweld yn digwydd arnynt.

Er enghraifft, os mai datblygiad masnachol/manwerthu fydd y stryd, dylid ei dylunio fel bod modd i bobl fynd i mewn i'r siopau, oedi o flaen ffenestri siopau, cyfarfod a sgwrsio ag eraill, cael diod ac ati. Fodd bynnag, os mai datblygiad preswyl fydd y stryd, dylid ei dylunio fel ei bod hi'n ddiogel i bobl gerdded ac i blant chwarae. Gall hyn arwain at strydoedd culach gyda therfynau cyflymder is a 'strydlun' mwy diddorol.

Er bod darpariaeth priffyrdd, cyffyrdd ac ati yn cael ei reoli gan ddeddfwriaeth genedlaethol arall, gall glynu'n rhy gaeth wrth gynlluniau ffordd anhyblyg arwain at ddatblygiadau diflas nad ydynt yn adlewyrchu'r ymdeimlad o le. Felly, mae'n hanfodol eich bod yn siarad â Swyddogion Priffyrdd cyn gynted â phosibl er mwyn trafod eich syniadau.

4.7. Cwestiynau i'w Gofyn i chi'ch Hun

Wrth ystyried eich datblygiad, y pwyntiau mynediad gofynnol a symudiad y datblygiad, efallai y bydd hi'n ddefnyddiol i chi ystyried y cwestiynau canlynol:

- Sut mae'n cyd-fynd â'r ardal ehangach?

- A yw'n rhan o rwydwaith o strydoedd tebyg neu a yw'n annibynnol?
- A fydd yn cysylltu â stryd bresennol neu a yw'n gwbl newydd?
- Os yw'n stryd bresennol, sut mae'n cael ei defnyddio?
- Sut mae pobl yn defnyddio'r stryd?
- Sut mae cerbydau'n defnyddio'r stryd?
- Os yw'n stryd newydd, sut y caiff ei defnyddio?
- Sut fydd pobl yn defnyddio'r stryd?
- Sut fydd cerbydau'n defnyddio'r stryd?
- Beth yw prif ffyrdd o ddefnyddio'r adeiladau?
- A oes unrhyw goed, ymylon neu lystyfiant arall?
- Pa arwyddion ffordd sy'n bresennol?
- Pa ddodrefn stryd sy'n bresennol e.e. meinciau, biniau ac ati?
- A yw'r stryd yn teimlo'n agored neu'n amgaeedig?
- A yw'n teimlo'n orlawn neu'n brysur, neu'r ddau?
- A yw'n teimlo'n beryglus oherwydd gweithgaredd traffig?
- A yw'r stryd yn annymunol neu a yw wedi'i hesgeuluso?
- Dylid dylunio dull dylunio cydweithredol ar gyfer cerbydau, cerddwyr a beiciau gyda'i gilydd. Dylunio ar gyfer cyflymder isel i gerbydau er mwyn sicrhau bod strydoedd a gofodau'n ddiogel i gerddwyr a beicwyr eu defnyddio.
- Dylai datblygiad gysylltu â'r llwybrau presennol sy'n mynd o gwmpas y safle a thrwyddo;
- Llwybrau uniongyrchol sy'n ddeniadol ac yn dilyn llinell deithio a symud ddymunol e.e. at siop leol, ysgol, arhosfan bws ac ati.
- Nodi pwysigrwydd ac arwyddocâd pob llwybr, gan adlewyrchu hierarchaeth y ffyrdd, y strydoedd a'r llwybrau trwy gyfrwng y dyluniad;
- Dylai fod darpariaeth yn y llwybrau ar gyfer cyfnodau datblygu pellach;
- Dylai'r safle fod yn dramwyadwy ac yn gydgysylltiedig. Ystyriwch sut mae sicrhau mynediad i bawb e.e. sicrhau darpariaeth ar gyfer pobl sydd ag anableddau corfforol a phobl sydd â nam ar eu golwg neu ar eu clyw;
- Arwyddion clir i helpu pobl ffeindio'u ffordd;
- Rhoi ystyriaeth i'r Llawlyfr Strydoedd.

Wrth ystyried symudiadau dylid meddwl am bob elfen e.e. ceir, cerddwyr, trafnidiaeth gyhoeddus, a rhoi sylw i'r pwyntiau canlynol:

- **Integreiddio/Cysylltu:** sut mae'r datblygiad newydd yn cysylltu â'r ffurf adeiledig bresennol? Sut y bydd yn gorgyffwrdd? Pa gysylltiadau y gellir eu darparu rhwng yr hen a'r newydd?
- **Ymdeimlad o le:** Beth sy'n gwneud y datblygiad yn unigryw? Beth sy'n ei wneud yn wahanol i ddatblygiadau eraill? Sut mae'r datblygiad yn cryfhau hunaniaeth leol?
- **Swyddogaethau:** Ystyriwch sut y bydd yr holl elfennau defnydd tir unigol yn gweithio gyda'i gilydd e.e. anheddau, siop, ardal chwarae, strydoedd ac ati.
- **Cytgord:** ystyriwch gynaliadwyedd amgylcheddol, sut mae'r datblygiad yn effeithio ar hynny, beth ellir ei wneud i wella'r amgylchedd?
- **Ymarferoldeb:** Ystyriwch sut y bydd yr holl elfennau defnydd tir unigol yn gweithio gyda'i gilydd e.e. anheddau, siopau, man chwarae, strydoedd ac ati.
- **Cytgord:** ystyriwch gynaliadwyedd amgylcheddol, sut mae'r datblygiad yn effeithio arno, beth ellir ei wneud i wella'r amgylchedd?
- **Diogelwch:** Sut fydd symudiad o gwmpas a thrwy'r datblygiad yn ddiogel? Beth yw'r peryglon, a oes modd eu lliniaru?

5. Tirwedd

Y dirwedd yw un o nodweddion ac adnoddau pwysicaf Ceredigion, felly mae angen ei diogelu a'i gwella. Nid yw hyn yn golygu na ellir gwneud newidiadau i'r dirwedd; yn hytrach, mae'n golygu bod angen i unrhyw ddatblygiad fod o safon uchel ac ategu a chyfrannu at gymeriad y dirwedd.

Mae ystyried y dirwedd yn rhan allweddol o'r broses ddylunio. Gall tirwedd sy'n seiliedig ar syniadau da helpu i wella ardal, yn ogystal â helpu i integreiddio datblygiad newydd mewn ardal, gan wneud cyfraniad cadarnhaol at y strydlyn ac ychwanegu at werth y safle ar y farchnad.

Wrth ystyried y dirwedd, mae'n bwysig ystyried popeth sy'n cyfrannu at y dirwedd a phob elfen ohoni. Mae adeiladau'n diffinio gofod gan greu ymyl; mae ffyrdd yn darparu pwyntiau mynediad, mae parciau a mannau agored yn dangos yr amgylchedd cyhoeddus.

Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn rhoi cyngor ar agweddau i'w hystyried wrth gynllunio datblygiad neu ddylunio cynllun gwella. Nid oes bwriad iddo fod yn 'gwrs byr' ar ddylunio'r dirwedd ac, ar rai cynlluniau, efallai y byddai'n ddoeth defnyddio pensaer tirwedd cymwys. Gall pensaer tirwedd cymwys gyfrannu profiad, gweledigaeth ac ysbrydoliaeth at brosiect. Mae gan Sefydliad y Dirwedd (Landscape Institute) restr o Benseiri Tirwedd achrededig (<http://www.landscapeinstitute.org>).

Yn y canllawiau hyn, mae'r term 'tirweddu caled' yn cyfeirio at balmentydd, waliau, rheiliau, ffensys, strwythurau cynnal a dodrefn stryd megis goleuadau, seddi, bolardiau, hysbysebion ac arwyddion. Mae tirweddu 'meddal' yn cynnwys coed, planhigion, glaswellt, dŵr a modelu'r ddaear. Dylai tirweddu caled a meddal gael eu hystyried gyda'i gilydd ac fel rhan annatod o unrhyw gynnydd i greu neu wella gofodau allanol.

Mae amryw o bolisiâu yn y CDLI yn cyfrannu at dirweddu, ond yr un mwyaf penodol yw DM10: Dylunio a Thirweddu. Mae'r polisi hwn yn canolbwyntio ar yr angen i ystyried y dirwedd bresennol a sut y bydd y datblygiad newydd yn gwella'r dirwedd honno. Mae'r polisi hwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynllun tirweddu gael ei gyflwyno ar gyfer unrhyw fath o ddatblygiad heblaw cartrefi. Dylai'r cynllun hwn ddangos pa nodweddion tirwedd fydd yn cael eu cadw (e.e. coed, pyllau) a phlannu o'r newydd, beth ydynt ac ymhle y cânt eu lleoli (ar fap lleoliad).

5.1. Asesiad o Gymeriad y Dirwedd

Dylid asesu tirwedd yr ardal i'w datblygu. Dylai hon fod yn broses wrthrychol sy'n darparu gwybodaeth ffeithiol am leoliad penodol. Ar yr adeg hon, ni fydd

yr asesiad yn pennu a yw dulliau dylunio penodol yn briodol, ond dylai helpu i lywio'r cam dylunio yn y pen draw.

Gall dealltwriaeth o gymeriad y dirwedd helpu i sicrhau bod datblygiad yn cael ei ddylunio'n dda a'i fod yn integreiddio i'r ardal o'i gwmpas, gan ystyried nodweddion yr ardal er mwyn llywio sut i'w leoli.

Gall dealltwriaeth dda o safle, ei ymdeimlad o le a'i gymeriad helpu i sicrhau bod dyluniad y datblygiad yn arloesol hefyd. Bydd y ddealltwriaeth hon yn helpu i sicrhau bod tirweddau'n cael eu hadfer, eu gwella a'u rheoli'n briodol. Bydd hefyd yn diogelu nodweddion arbennig neu bwysig. Wrth asesu'r dirwedd bresennol, dylech ystyried y canlynol:

- Nodweddion/manylion presennol y safle e.e. coed, perthi, cyrsiau dŵr ac ati
- Pa nodweddion sydd i'w cadw
- Pa nodweddion sydd i'w symud
- Topograffi'r safle e.e. goleddfu, gwastad ac ati.
- Sut y gellir gwella'r dirwedd
- Sut y gall y datblygiad gryfhau cysylltiadau rhwng y safle a'r ardal o'i gwmpas.

Dylai'r ddealltwriaeth hon o'r dirwedd helpu i ddylanwadu ar ddatblygiadau sy'n diogelu a gwella'r nodweddion presennol, lle bo hynny'n briodol.

Mae faint o dirweddu sydd ei angen ar safle yn dibynnu ar yr hyn sy'n cael ei gynnig, y lleoliad a pha mor fawr yw'r datblygiad. Er enghraifft, efallai y bydd datblygiad o 5 annedd newydd angen tirweddu meddal er mwyn lliniaru unrhyw golledion ar y safle oherwydd y datblygiad, a thirweddu fel rhan o'r datblygiad cyffredinol. Ond efallai y bydd datblygiad o 20 o anheddau yn gofyn am waith plannu newydd i helpu i sicrhau bod y safle'n cyd-fynd â'r dirwedd bresennol.

5.2. Egwyddorion Sylfaenol

Mae ffigur 21 yn dangos sut y gall tirweddu greu strydlun diddorol ac atyniadol.



FFIGUR 21: ENGHRAIFFT O STRYDLUN WEDI'I DIRWEDDU'N DDA AC YN WAEL

5.3 Seilwaith Gwyrdd

Ystyr Seilwaith Gwyrdd yw rhwydwaith o fannau gwyrdd a glas o safon uchel a nodweddion amgylcheddol eraill sy'n cefnogi'r prosesau naturiol ac ecolegol. Mae'n hollbwysig i iechyd ac ansawdd bywyd trigolion Ceredigion.¹

Wrth ddylunio'r datblygiad, dylid rhoi ystyriaeth fanwl i sut y mae'n cyd-fynd â'r dirwedd bresennol a sut y gall ei gwella. Fodd bynnag, ar gyfer unrhyw waith tirweddu newydd, mae'n bwysig ystyried sut y mae popeth yn cysylltu â'i gilydd. Trwy gynllunio'ch safle a'r tirweddu'n ofalus, gall y datblygiad gyfrannu at Seilwaith Gwyrdd.

¹ 'Planning for a healthy environment: good practice for green infrastructure and biodiversity' Town and Country Planning Authority (TCPA) (July, 2012) http://www.tcpa.org.uk/data/files/TCPA_TWT_GI-Biodiversity-Guide.pdf

Mae llawer o ofynion tirweddu a bioamrywiaeth y CDLI yn cyfrannu at Seilwaith Gwyrdd. Dyma rai elfennau dylunio sylfaenol y gellid eu cynnwys fel rhan o ddatblygiad sy'n cyfrannu at Seilwaith Gwyrdd:

- Coed;
- Plannu cyffredinol – perthi sy'n nodi ffiniau, llwyni, blodau ac ati.
- Ymylon glaswellt sy'n gweithredu fel systemau draenio cynaliadwy;
- Palmentydd athraidd ac ati.

Mae'n bwysig ystyried pob agwedd ar y datblygiad gyda'i gilydd; mae darpariaeth SDCau, bioamrywiaeth a mannau agored oll yn cyfrannu at greu amgylchedd gwyrddach. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Fannau Agored a'r Canllawiau ar Gadwraeth Natur yn darparu manylion pellach ar Seilwaith Gwyrdd.

5.4 Tirweddu Meddal

Yn aml, gall tirweddu meddal gyfrannu mwy at yr amgylchedd a chymeriad ac aeddfedrwydd datblygiad newydd nag unrhyw ffactor arall. Bydd y Cyngor yn ceisio cadw coed presennol ac yn annog plannu coed newydd. Dyma rai o'r elfennau cadarnhaol y gall tirweddu eu cyfrannu at ddatblygiad:

- Mwy o fioamrywiaeth;
- Gall coed ddarparu diogelwch rhag yr haul;
- Gall llystyfiant helpu i leihau dŵr ffo ac erydiad pridd;
- Ennyn diddordeb: gwahanol liwiau, newid tymhorol;
- Hyrwyddo symudiad a gweithgaredd;
- Mwy o ddatblygiad/gwerth eiddo'n cynyddu,

Bydd y math o blanhigion a'r gofod rhwng planhigion yn amrywio yn dibynnu ar swyddogaethau dylunio'r planhigion e.e. sgrinio, effaith gyflym, fframio golygfa, lliw, arogl ac ati.

Yn ogystal, dylai cyd-destun, lleoliad ac ystyriaeth o fioamrywiaeth ddylanwadu ar y dewis o blanhigion. Mae Polisi DM10: Dylunio a Thirweddu yn nodi na ddylid cynnwys rhywogaethau ymledol amrodorol yn y gwaith tirweddu ac y dylid canolbwyntio'n bennaf ar rywogaethau brodorol o darddiad

lleol. Mae rhywogaethau sy'n ffynnu'n lleol yn fwy tebygol o oroesi a chefnogi niferoedd uwch o rywogaethau neu rywogaethau lleol.

Mae'n bwysig ystyried ym mhle y lleolir planhigion newydd. Er enghraifft, efallai y bydd hi'n briodol gosod coeden fach mewn gardd, ond pe bai'r un goeden yn cael ei defnyddio mewn man agored neu i sgrinio'r tu allan i'r datblygiad, efallai y byddai'n fwy tebygol o dorri ac yn edrych yn anghymesur mewn man mor fawr.

Mae ystyried sut i ddiogelu planhigion mewn mannau cyhoeddus yn bwysig hefyd. Mewn ardaloedd lle bydd planhigion yn agored i niwed e.e. llwybrau cerdded, ffyrdd ac ati, dylid ystyried gosod rhwystrau i helpu i ddiogelu'r planhigion. Os bydd angen diogelwch parhaol, dylid gosod ffens fetel neu bren.

Dylid osgoi defnyddio rhwystrau neu gardiau y bydd angen eu tynnu yn y dyfodol gan eu bod yn cael eu gadael yn aml, a'r coed yn dirywio o'r herwydd.

5.4.1 Coed a Pherthi/Gwrychoedd

Wrth wneud unrhyw waith a all olygu cael gwared ar berth neu goeden, mae'n bwysig cysylltu â'r Cyngor gan y gall fod deddfwriaeth yn diogelu'r berth neu'r goeden honno. Mae'n bwysig cadw coed a pherthi presennol. Ni chaniateir datblygiadau lle gellid gwneud difrod neu ddinistr, oni bai bod yna resymau penodol iawn y gellir eu cyfiawnhau.

Rheswm arall dros gadw nodweddion presennol y dirwedd a'r coed yw eu bod yn ychwanegu at werth yr ardal a'r eiddo. Mae hynny oherwydd bod pob datblygiad newydd yn fwy cydnaws yn y dirwedd sydd ohoni oherwydd bod y twf a'r sgrinio'n gweddu'n syth.

Cyflwynodd Rheoliadau Perthi 1997 system lle mae'n rhaid rhoi 42 diwrnod o rybudd i'r Cyngor o'r bwriad i gael gwared ar berth yn amodol ar y Rheoliadau. Mae perthi y mae'r rheoliadau berthnasol iddynt yn cynnwys y rhai ar neu yn ymyl y canlynol:

- Tir comin;

- Meysydd pentref;
- Safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig;
- Gwarchodfeydd natur lleol;
- Tir a ddefnyddir at ddibenion amaethyddiaeth;
- Tir a ddefnyddir at ddibenion coedwigaeth;
- Tir a ddefnyddir at ddibenion bridio neu gadw ceffylau, merlod neu asynnod.

Wrth benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio mae'n rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ystyried Rheoliadau Perthi 1997 a ph'un ai a fyddai rhyw Beth neu'i gilydd yn cael ei hystyried yn 'bwysig' ai peidio. Gellid ystyried perth yn 'bwysig' petai'n 30 mlynedd oed o leiaf a'i bod yn cyflawni o leiaf un o'r meini prawf a restrir yn [rhan II atodlen 1](#) y Rheoliadau. Mae a wnelo'r meini prawf â gwerth y perthi o safbwynt archeolegol, hanesyddol, tirweddol neu o ran byd natur.

Mae coed yn gwneud cyfraniad pwysig iawn at hinsawdd y byd; maent yn amsugno carbon deuocsid (ac yn ei gadw) ac yn rhyddhau ocsigen. Mae'n hollbwysig ein bod yn cadw coed a choetiroedd er mwyn darparu llefydd diddorol a deniadol, ac maent hefyd yn helpu i leddfu sŵn, darparu cynefin i fywyd gwyllt a lleihau dŵr ffo.

Mae coed yn cael eu diogelu mewn dwy brif ffordd; trwy Orchymyn Cadw Coed (TPO), sy'n gallu bod yn berthnasol i goed unigol penodol neu grwpiau o goed, a thrwy ddynodiad Ardal Gadwraeth, sy'n darparu lefel o amddiffyniad i goed yn yr ardaloedd hynny.

Prif ddiben Gorchymyn Cadw Coed (TPO) yw gwahardd torri, dadwreiddio, topio, tocio, difrodi neu ddinistrio coeden neu goed heb ganiatâd yr awdurdod cynllunio lleol. Os bydd coeden â TPO yn cael ei thorri i lawr neu ei thrin mewn rhyw ffordd heb ganiatâd, gall yr Awdurdod erlyn yr unigolyn neu'r bobl sy'n gyfrifol, gan arwain at ddirwy neu ddedfryd hyd yn oed.

Ystyr ardaloedd cadwraeth yw ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig y byddai'n ddymunol gwarchod neu wella eu cymeriad

neu eu hymddangosiad. Fodd bynnag, mae unrhyw goeden sydd mewn ardal gadwraeth ond nad oes ganddi TPO yn cael ei diogelu o dan statws dynodedig yr ardal, felly mae'n ofynnol i unrhyw un sydd am dorri coeden i lawr neu ei thrin mewn rhyw ffordd mewn ardal gadwraeth roi **rhybudd o 6 wythnos** i'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn cyflawni'r gwaith hwnnw, gan roi cyfle i'r Awdurdod benderfynu a ddylid gosod TPO ar y goeden.

Os ydych chi'n bwriadu torri coeden i lawr, mae'n bwysig gwirio gyda'r Awdurdod Lleol nad yw eich eiddo mewn Ardal Gadwraeth ac nad oes gan y goeden TPO.

Mae mwy o wybodaeth yn Nodyn Cyngor Technegol 10: Gorchmynion Cadw Coed.

Yn ogystal, gallwch gael mwy o wybodaeth am y Rheoliadau Perthi a TPOs gan Adran Arfordir a Chefn Gwlad y Cyngor.

5.5 Tirwedd a Bioamrywiaeth

Yn aml, ystyrir bod elfennau tirwedd ac ecolegol ar safle yn cyfyngu ar ddatblygiad, ond nid yw hynny'n wir bob amser. Trwy feddwl ymlaen llaw a chynllunio'n gynnar, gall y gwaith o ymgorffori nodweddion naturiol wneud safle a datblygiad yn fwy deniadol, gan feithrin hunaniaeth unigryw yn ogystal â chodi gwerth y plotiau o bosibl². Y peth allweddol wrth fynd i'r afael â'r amgylchedd naturiol yw sicrhau ei fod yn rhan gadarnhaol o'r dyluniad yn hytrach na'i adael tan i'r datblygiad gael ei ddylunio, sy'n golygu y bydd rhaid ei ymgorffori fel rhyw elfen ychwanegol.

Dylai datblygiad gael ei ddylunio fel ei fod yn integreiddio, yn diogelu ac yn gwella tirwedd a bioamrywiaeth safle. Dylai gwaith plannu ychwanegol ystyried coridorau ecolegol (gan ganiatáu i rywogaethau symud o fewn y safle a chysylltu â chynefinoedd cyfagos).

Yn aml, ardaloedd adeiledig fydd yr hafan olaf i rywogaethau sydd wedi colli eu cynefin yng nghefn gwlad oherwydd arferion ffermio rhy ddwys.

² The Case for Trees in Development and the Urban Environment (Forestry Commission England, 2010) <http://www.bristol.gov.uk/sites/default/files/assets/documents/eng-casefortrees.pdf>

Rhywogaethau Lleol

Cewch gyfarwyddyd ynglŷn â phlannu yn y Canllawiau sy'n ymwneud â bywyd gwyllt mewn Datblygiadau'.

I gael mwy o wybodaeth am rywogaethau brodorol, gweler y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Gadwraeth Natur.

Dylid gadael i byllau a ffosydd eu hail-greu eu hunain. Mae'r cymunedau olynol o rywogaethau o'r rhywogaethau cychwynnol hyd at y cymunedau sefydledig yn bwysig i fioamrywiaeth. Mae hefyd yn lleihau'r risg o halogiad gan glefydau a rhywogaethau ymledol anffrodorol.

5.5.1 Diogelu a Gwella Bywyd Gwyllt

Mae Ceredigion yn falch iawn o'r amrywiaeth eang o blanhigion, anifeiliaid a chynefinoedd sydd yn y sir, a nod yr Awdurdod yw eu diogelu a'u gwella.

Pan gyflwynir cais cynllunio, ymgynghorir ag Ecolegydd Cynllunio'r Awdurdod Lleol a hefyd lle bo'n briodol, Cyfoeth Naturiol Cymru, lle bo posibilrwydd y gellid effeithio ar fywyd gwyllt neu os oes arolygon wedi eu cyflwyno. Gallai'r Ecolegydd ac/neu Gyfoeth Naturiol Cymru ofyn am fwy o wybodaeth megis arolygon o rywogaethau neu ddulliau lliniaru. O ran y gwaith hwnnw mae'n debygol y byddai angen cyfraniadau gan Ecolegwyr/Tyfwyr Coed/Penseiri Tirwedd. Byddant hefyd, pe baent yn fodlon ar y datblygiad, yn argymhell amodau i'r Swyddog Rheoli Datblygu eu cynnwys pe bai'r cais yn cael ei gymeradwyo.

Mewn perthynas ag unrhyw ddatblygiad, dylid mynd ati i ddiogelu ac i wella gwerth cyffredinol y safle o safbwynt bywyd gwyllt trwy gadw ac ymgorffori nodweddion presennol a chreu/adfer nodweddion eraill lle bo hynny'n ymarferol yn unol â Pholisiau DM14: Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol a DM15: Cadw Bioamrywiaeth Leol, yn ogystal â Pholisiau DM06: Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel a DM10: Dylunio a Thirweddu.

Argymhellir y dylid cysylltu ag Ecolegydd yr Awdurdod Lleol cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn sicrhau bod lefel briodol o waith arolygu, lliniaru ac ati'n cael ei integreiddio yn y cynllun yn gynnar yn y broses, a gwarchod rhag oedi diangen a chostus a mwy o gostau, na fuasai'n angenrheidiol gyda'r cais cynllunio fel arall.

I gael mwy o wybodaeth ynglŷn â'r gofynion ar gyfer datblygwyr a phryd y byddai effaith ar fywyd gwyllt, gweler y Canllawiau Cynllunio Atodol Cadwraeth Natur a'r Nodiadau Canllaw cysylltiedig. Yn arbennig felly mae Adran 12 yn rhoi gwybodaeth ynghylch 'Mathau o Ddatblygiadau ac Astudiaethau Achos'.

5.5.2 Cynnal Gwaith Tirweddu

Wrth gynllunio unrhyw waith tirweddu, yn enwedig tirweddu meddal, dylid ystyried sut y mae cynnal y cynllun tirweddu hwnnw at y dyfodol. Bydd angen i ddatblygwyr sicrhau bod mynediad digonol ar gyfer pobl/peiriannau er mwyn iddynt fedru rheoli'r llystyfiant. O ran cynlluniau mwy o faint, bydd angen sicrhau bod cynllun rheoli tymor hir yn bod cyn rhoi caniatâd cynllunio. Efallai y bydd angen cytundeb o dan Adran 106 ar gyfer hynny.

5.6 Ystyriaethau wrth Ddylunio

Dylai datblygiadau newydd osgoi cynlluniau gor-drefnus. Dylai coed a pherthi hen a newydd gael eu hintegreiddio o fewn y safle ac yn gyfagos iddo. Wrth ystyried y dirwedd lle mae datblygiadau n i'w hystyried:

- Cynllunio'r safle:
 - Wrth gynllunio'r dirwedd, rhaid ystyried lleoliad yr adeiladau sydd o fewn y safle ac sy'n gyfagos iddo, yn hytrach na'u hystyried fel modd o lenwi'r bylchau sy'n weddill.
 - Wrth gynllunio'r safle, dylid ystyried ffurf a defnydd y gofod, a dylid ystyried pob agwedd ar ddiogelwch wrth ddylunio.
 - Dylid ymgorffori mynediad i gerbydau a cherddwyr i'r safle yn y dyluniad yn gynnar yn y broses.

- Dylai unrhyw waith plannu fod o faint priodol ar gyfer y gofod dan sylw.
- A ellir ymgorffori seilwaith gwyrdd yn y dyluniad, boed hwnnw'n bodoli'n barod neu'n newydd, i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd neu er mwyn ymaddasu iddo e.e. cysgodi; llai o ddŵr yn llifo o'r safle?
- Y nodweddion a'r llystyfiant presennol:
 - Dylid ymgorffori'r llystyfiant iach presennol, llwyni sgrinio, nodweddion neu gynefinoedd naturiol yn y cynigion tirweddu. Bydd hynny'n rhoi aeddfedrwydd i gynlluniau yn syth a bydd yn eu helpu i integreiddio i'r ardal leol. Dylid ystyried y rhain yn y dechrau, **cyn** dylunio'r cynllun. Ystyriwch sut y gallwch chi ddefnyddio'r nodweddion presennol i greu dull draenio cynaliadwy a'i ymgorffori yn y cynllun terfynol.
- Topograffi:
 - Dylid casglu gwybodaeth yn gynnar yn y broses gynllunio am lefelau safle.
 - Dylai datblygiadau weithio gyda graen y dirwedd, yn hytrach nag yn ei erbyn lle bynnag y bo modd. Er y gall tir sydd ar oleddf beri problemau wrth ddatblygu safle, gall gynnig cyfleoedd i greu buddiannau tirweddol trwy fodelu'r ddaear, defnyddio waliau cynnal, grisiau a rampiau. Lle bo modd, ni ddylid gwastadu safle er mwyn i ddatblygiad fynd rhagddo.
- Sicrhau bod lle digonol ar gyfer twf:
 - Sicrhewch fod lle digonol i'r coed neu'r llwyni hen a newydd dyfu'n llawn fel na fydd angen eu tocio na'u torri na'u diddymu yn y dyfodol.
 - Sicrhewch fod mynediad digonol ar gyfer cynnal a chadw elfennau'r dirwedd yn y cyfnod dylunio.
- Mannau Agored:
 - Mae darparu manau agored yn un o ofynion Polisi CDLI LU24: Darparu Mannau Agored Newydd. Mae tirweddu'n gallu helpu darparu rhai o'r gofynion o ran manau agored.

- Cynllunio ar gyfer y gwaith:
 - Bydd angen diogelu unrhyw nodweddion sydd i'w cadw tra bydd y gwaith adeiladu'n mynd rhagddo.

6. Estyniadau i'r Adeiladau Presennol

Er bod codi estyniad i adeilad presennol yn wahanol iawn i ddatblygu annedd neu ystâd newydd, mae yna rai ffactorau cyffredin i'w hystyried ym mhob datblygiad.

Mae gan bob ardal ei chymeriad unigryw. Yn y gorffennol, defnyddiwyd deunyddiau a thechnegau lleol ac, er nad oedd unrhyw ddau annedd yn union yr un fath, roedd ganddynt rai nodweddion cyffredin a arweiniodd at bensaernïaeth ranbarthol y mae modd ei hadnabod. Gweler Adran 2: Cymeriad.

Yn aml, gall manylion bach wneud gwahaniaeth i gymeriad cyffredinol datblygiad. Bydd treulio amser yn ystyried safle, dyluniad, deunyddiau a thirweddu yn gwneud y defnydd gorau posibl o safle ac yn arwain at ddatblygiad deniadol.

Mae cynllunio yn gwneud cyfraniad pwysig at ddiogelu rhinweddau presennol adeiladau a strydoedd. Felly, mae'n bwysig bod estyniadau ac addasiadau'n cael eu dylunio i ategu cymeriad eich eiddo a'r stryd neu'r ardal.

Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i chi ddeall cymeriad eich eiddo a'r ardal. Yn arbennig, dylech ystyried sut y bydd eich cynigion yn gweddu i nodweddion yr ardal. Dyma rai pethau y dylech eu hystyried:

- Siâp a gogwydd toeau presennol;
- Ffenestri: dormer, crom, modern;
- Cymesuredd a dyluniad agoriadau e.e. drysau yn y canol gyda ffenestri ar y naill ochr a'r llall;
- `Bylchau rhwng eiddo;
- Tirweddu e.e. gerddi ffrynt, waliau ffin neu reiliau;
- Deunyddiau: brics, rendrad, carreg, pren.

Nid oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer rhai ystafelloedd haul ac estyniadau bach. Mae gwefan y Porth Cynllunio (<http://www.planningportal.gov.uk>) yn

cynnig canllaw rhyngweithiol i ddefnyddwyr i'ch helpu i ddeall a fydd angen i chi gael caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith rydych chi'n bwriadu ei wneud. Gofalwch eich bod yn gwirio'r ddeddfwriaeth gynllunio ar gyfer Cymru yn hytrach na Lloegr, gan eu bod yn wahanol.

Boed angen caniatâd cynllunio ai peidio, dylai'r dyluniad weddu i'r adeilad presennol bob amser. Ni ddylai maint estyniad (cronnus) fod yn anghymesur â'r adeilad presennol a'i leoliad. Ffordd hawdd o wneud hyn yw trwy leihau uchder y grib a lleoli'r estyniad ymhellach yn ôl na'r eiddo presennol.

Ni ddylid lleoli estyniadau i eiddo preswyl yn rhy agos at anheddau cyfagos ac fe'ch cynghorir i drafod eich cynigion gyda'ch cymdogion yn gynnar yn y broses.

Wrth ddylunio'ch estyniad, mae'n bwysig ystyried sut y byddwch yn diogelu amwynderau anheddau cyfagos neu ddulliau eraill o ddefnyddio eiddo rhag gor-gysgodi ac o safbwynt preifatrwydd.

Bydd y dewis o sut a ble y byddwch yn codi eich estyniad yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys beth rydych chi am i'r estyniad ei wneud. Ffactor pwysig arall yw ystyried ble mae'r mwyaf o le, ar yr ochr neu yn y cefn? Sut fydd yr estyniad yn cysylltu â threfniant mewnol yr eiddo presennol?

Mewn rhai achosion, efallai y bydd sawl dewis o ran codi estyniad mewn ffordd na fydd yn cael rhyw lawer o effaith ar eiddo cyfagos. Fodd bynnag, yr egwyddor sylfaenol i'w dilyn yw na ddylai'r estyniad fod yn rhy fawr i'r eiddo presennol ac y dylai barchu a gwella arddull a chymeriad yr eiddo.

Mae cadwraeth natur hefyd yn bwysig wrth ddylunio estyniadau. Efallai fod ystlumod ac adar eisoes yn defnyddio rhai o'r nodweddion y gellid eu diddymu, neu'u rhwystro'n barhaol neu dros dro neu'u newid trwy eu hymestyn. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau nid yw'n debygol o rwystro datblygiad yr estyniad ond mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r ystyriaethau


sy'n ymwneud â dylunio. Gallai hynny olygu cadw manau mynediad a chlwydfannau a nythod neu ddarparu rhai newydd, sicrhau bod bwlch o 500mm o'r man mynediad presennol neu ddefnyddio defnydd ananadladwy/rhwystro mynediad i'r loft o'r loft bresennol i'r estyniad. Os gwneir arolygon o ystumod ac adar a thrafod gydag Ecolegydd y Cyngor yn gynnar yn y cyfnod dylunio gellir gwarchod rhag oedi diangen a chostus a gorfod ail-wneud y cynlluniau ac ati. Mae'n bwysig nodi bod cyfyngiadau o ran pryd y mae modd cynnal arolygon o ystumod.

Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â hyn yn y Canllawiau Cynllunio Atodol Cadwraeth Natur a'r nodyn canllaw 'Ystumod a Datblygu'.

Estyniadau Blaen

Mae addasrwydd estyniad blaen yn dibynnu ar ffurf a lleoliad yr eiddo a maint yr estyniad arfaethedig. Mae'n bwysig nad yw estyniadau blaen yn effeithio ar gysondeb y strydlyn a'r ffurf adeiledig nac yn ormodol o ran maint o gymharu â'r adeilad presennol.

Mae estyniad mawr i flaen adeilad, yn enwedig os yw'n mynd y tu hwnt i linell yr adeiladau ar y stryd, yn debygol o fod yn ormodol o gymharu â'r adeilad gwreiddiol a'r strydlyn/ffurf adeiledig, ac mae'n debygol y caiff ei ystyried yn annerbyniol.



FFIGUR 22: ENGHREIFFTIAU DA A GWAEL O ESTYNIADAU BLAEN

Gall cynteddau ychwanegu cymeriad at annedd ac, yn aml, maent yn nodwedd amlwg mewn llawer o adeiladau traddodiadol. Mewn anheddau newydd, maent yn nodwedd ddymunol yn aml gan eu bod yn darparu gofod storio a diogelwch rhag y tywydd.

Er mai estyniadau cymharol fach yw cynteddau, mae angen iddynt gael eu dylunio mewn ffordd ystyriol. Fel arfer, dylai cyntedd blaen fod yn ddyluniad cymharol syml, ac ni ddylai fod yn rhy fawr fel ei fod yn hoelio'r sylw ar flaen yr annedd.



FFIGUR 23: ENGHREIFFTIAU DA A GWAEL O GYNTEDDAU


Yn aml, nid oes angen caniatâd cynllunio i godi cyntedd. Gallwch wirio hyn trwy ddefnyddio'r 'Tŷ Rhyngweithiol' ar wefan y porth Cynllunio. Ewch i: <http://www.planningportal.gov.uk/permission/>

Estyniadau Ochr


Gall estyniad i ochr eich eiddo gael effaith fawr iawn ar ymddangosiad cyffredinol eich eiddo. Ar y cyfan, dylai'r estyniad gael ei ddylunio fel ei fod yn cyd-fynd â gweddlyn blaen yr adeilad. Dylid ceisio sicrhau nad yw unrhyw estyniad ochr yn tynnu gormod o sylw oddi ar yr eiddo presennol nac yn arwain at effaith teras, lle mae'r bwlch rhwng dau eiddo yn cael ei golli.

Yn gyffredinol, dylai'r estyniad gael ei osod ymhellach yn ôl na gweddlyn blaen yr adeilad a dylai'r grib fod yn is na llinell y brif grib fel bod yr estyniad yn is na'r adeilad presennol.

Mae estyniad sy'n cydnabod siâp yr adeilad presennol yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus nag un sy'n anwybyddu dyluniad yr adeilad gwreiddiol.



FFIGUR 24: ENGHREIFFTIAU DA A GWAEL O ESTYNIADAU OCHR – GOLYGFA O'R TU BLAEN



FFIGUR 25: ENGHREIFFTIAU DA A GWAEL O ESTYNIADAU OCHR – GOLYGFA O'R AWYR

Bydd angen i chi ystyried math, maint a lliw deunyddiau ar gyfer yr estyniad. Er y bydd defnyddio deunyddiau tebyg i'r deunyddiau presennol yn gwneud i'ch estyniad weddu'n well, efallai y bydd yna rai dyluniadau a fyddai'n addas ar gyfer gwahanol fath o ddeunydd. Gweler ffigur 26 i weld enghraifft o wahanol ddeunyddiau'n cydweddu'n dda.

Mae hi hefyd yn bwysig iawn ystyried sut y bydd to'r estyniad yn gweithio. Er enghraifft, o ran datblygiad preswyl, ar annedd lle mae'r to ar ongl mae'n

annhebygol y bydd estyniad â tho gwastad yn gweddu. Oni fydd wedi ei ddylunio'n dda a'i fod yn gydnaws â chymeriad y ffurf adeiledig bresennol fel y llun uchod.


Ni ddylai estyniadau gael effaith andwyol ar faterion diogelwch ar y ffyrdd na darpariaeth lle parcio.



FFIGUR 26: ESTYNIAD MODERN AR ADEILAD TRADDODIADOL
Delweddau: Trwy gareidgrwydd Zeta Freeman, Catalina Architecture

Estyniadau Cefn

Mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o estyniadau'n cael eu codi ar gefn eiddo, a dyma lle gallent gael effaith andwyol ar eiddo cyfagos.



FFIGUR 27: ENGHREIFFTIAU DA A GWael O ESTYNIADAU CEFN


Fel arfer, byddai ffenestri ochr ar gefn estyniad yn golygu bod cymdogion yn colli preifatrwydd, felly ni fyddant yn cael eu caniatáu oni bai eu bod yn cael eu lleoli uwchben lefel y llygaid neu eu bod yn defnyddio gwydr na ellir gweld trwyddo.

Yn yr un modd ag estyniadau eraill, dylid ystyried pa ddeunyddiau i'w defnyddio. Yn draddodiadol, byddai defnyddio brics, cerrig neu rendrad tebyg yn helpu'r estyniad i weddu i'r eiddo presennol. Fodd bynnag, trwy roi ystyriaeth ofalus i ddyluniad a deunyddiau, mae modd codi estyniad mwy modern.

Ni ddylai'r estyniad newydd gyfyngu ar fynediad i gefn yr adeilad.

O ran eiddo preswyl, i helpu i ddiogelu amwynderau anheddau cyfagos rhag gor-gysgodi neu rwystr, dylech ddefnyddio'r Rheol 45 Gradd.

Mae hyn yn golygu tynnu llinell o ganolbwynt sil ffenestr sy'n cael ei heffeithio gan estyniad cymydog ar ongl o 45 gradd tuag at yr estyniad. Os bydd yr estyniad arfaethedig yn croesi'r llinell honno, mae'n annhebygol y caiff ei dderbyn gan y bydd yn gor-gysgodi.



FFIGUR 28: Y RHEOL 45 GRADD

Yn yr un modd â phob datblygiad, caiff pob achos ei asesu ar sail ei rinweddau ac, mewn rhai achosion, efallai y bydd estyniad yn torri'r rheol 45 gradd; mae hyn yn fwy tebygol o ddigwydd gyda thai pâr neu dai teras.

Estyniadau Llofft

Gall gwneud defnydd o'r llofft ddarparu gofod dymunol iawn. Yn aml, nid oes angen caniatâd cynllunio er mwyn gwneud defnydd o'r llofft, oni bai bod yr hawliau datblygu a ganiateir wedi'u diddymu. Er efallai na fydd angen caniatâd cynllunio, bydd angen cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu.

Cysylltwch â'r Gwasanaeth Rheoli Adeiladu i gael rhagor o wybodaeth ar 01970 633484 (Gogledd) 01545572484 (De).

Fel gydag unrhyw estyniad, bydd angen i chi ystyried effeithiau'r estyniad hwn ar eiddo cyfagos. Bydd angen i chi ystyried a fydd yr estyniad yn arwain at edrych i mewn i ardaloedd cyfagos.

Un ffordd hawdd o oresgyn y broblem hon yw trwy osod ffenestri yn nho estyniad cefn. Mae'r rhain yn darparu golau ond yn helpu i osgoi problemau o ran edrych i mewn i adeiladau eraill.

Os gosodir ffenestri dormer, dylent fod yn fach a pheidio denu gormod o sylw. Dylent gael eu dylunio fel eu bod yn gweddu i'r adeilad presennol.

Isloriau

Mae gan rai adeiladau yng Ngheredigion islawr ac, yn aml, nid yw'r ardal hon yn cael ei hystyried fel gofod gwerthfawr. Fodd bynnag, gall yr ardaloedd hyn gael eu troi'n ofod byw hwylus.

Yn aml, ni fydd gan islawr olau naturiol ac efallai y bydd yna leithder yno. Fodd bynnag, mae gwelliannau i dechnoleg fodern yn ei gwneud yn bosibl i isloriau ddal dŵr. Mae hi hefyd yn bwysig asesu a fydd angen gwneud unrhyw welliannau i'r seiliau fel rhan o'r estyniad a sut y byddwch yn awyru'r gofod newydd.

Yn dibynnu ar sut rydych chi'n bwriadu defnyddio'ch gofod, efallai y byddwch chi'n hapus na fydd yna olau naturiol, er enghraifft, os ydych chi'n bwriadu troi'r ystafell yn ystafell deledu/sinema. Fodd bynnag, ar gyfer y rhan fwyaf o addasiadau eraill, bydd angen rhywfaint o olau naturiol. Os nad oes modd gosod ffenestri ychwanegol, gallech chi osod y canlynol:

- Tyllau Golau Seler: Mae twll bach yn cael ei gloddio wrth ochr un o waliau'r islawr er mwyn gosod ffenestr.

- Tiwb golau: Yn debyg i dwll golau mae'r dechnoleg hon yn golygu gosod silindr sy'n mynd drwy'r ddaear a chromen ar wyneb y ddaear sy'n gadael golau i mewn i'r ystafell ac yn tryledu'r golau.
- Drws gwydr: os oes gennych chi ddrws o'r selar i'r awyr agored, gallech osod drws gwydr.

Os ydych chi'n ystyried troi eich islawr yn ystafell, mae'n hollbwysig eich bod yn defnyddio cwmni â gwybodaeth arbenigol yn y maes hwn i'ch cynghori ar y ffordd orau i fynd ati.

Er efallai na fydd angen caniatâd cynllunio i droi islawr yn ystafell, bydd angen iddo gydymffurfio â rheoliadau adeiladu.

6.1. Deunyddiau

Yn draddodiadol, wrth adeiladu estyniad, byddai'r un math o ddeunydd gorffeniad â'r annedd gwreiddiol yn cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, o'i ddylunio'n ofalus, gall estyniad fod yn gyfle i ddefnyddio deunyddiau modern e.e. gwydr, dur, pren ac ati.

Mae'r deunyddiau a ddefnyddir yn hynod bwysig os yw eich eiddo yn Adeilad Rhestredig neu ei fod mewn Ardal Gadwraeth. Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r deunyddiau adeiladu, y cyfrwng bondio a'r gwaith pwyntio (mortar) rhwng y briciau, er mwyn cynnal cymeriad a golwg yr adeilad. Dylech geisio cymorth proffesiynol gydag adeiladau treftadol.

6.1.1. Waliau

Yng Ngheredigion, mae sawl math gwahanol o orffeniad yn cael ei ddefnyddio ar y waliau ledled y sir.

Yn draddodiadol, carreg naturiol oedd y deunydd a ddefnyddiwyd ac mae hyn yn dal i gael ei annog fel deunydd traddodiadol ar gyfer yr ardal. Dylai'r gwaith carreg, y cyrsiau a'r manylion weddu i gymeriad yr ardal leol neu'r adeilad sy'n cael ei ehangu.

Wrth ddefnyddio carreg mae yna sawl dull o'u gosod ac er bod hyn yn amrywio o fewn y Sir, mae'n bwysig bod y garreg a ddewiswch a'r gorffeniad yn adlewyrchu'r ardal gyfagos. Yn yr oes a fu, gwyngalch fyddai'r deunydd gorffen ar adeiladau i alluogi'r waliau i anadlu a chynnal eu lefelau lleithder eu hunain trwy anweddiad. Fodd bynnag, mae'r dull hwn yn gofyn am waith cynnal a chadw rheolaidd a dylid rhoi gwyngalch neu baent microsilicad ar rendrad calch i ganiatáu iddo anadlu.

Un broblem arbennig sy'n codi gydag estyniadau yw pan fo'r wal newydd yn barhad o'r wal wreiddiol. Os oes angen gwneud hyn, mae angen sicrhau bod lliw a gwead y deunydd a ddefnyddir yn gwbl gyson â'r gwreiddiol. Os yw'r annedd yn hen, gall aildefnyddio hen ddeunyddiau fod yn syniad da iawn.

Toeau

Goleddf

Mae gan fwyafrif y toeau traddodiadol oleddf gweddol serth gyda chrib y to'n mynd ar hyd yr adeilad yn hytrach na'i led. Pan fo arwynebedd mawr i'r to, bydd defnyddio toeau lluosog gydag un ar gyfer prif ran y tŷ a thoeau ar wahân ar gyfer rhannau eraill yn lleihau'r effaith. Dylai crib yr adenydd eilaidd a'r ychwanegiadau fod yn is na phrif grib y to. Mae toeau gwastad yn annerbyniol fel rheol, oherwydd maent yn anghydnaws â ffurfiau traddodiadol dyluniadau Ceredigion. Yng Ngheredigion mae toeau ar oleddf hir yn gyffredin yn y bensaerniaeth. Mae'r toeau'n mynd yn is nag uchder y prif fondo.

Bondoeau

Dylai dyfnder y bondo adlewyrchu'r hyn a geir ar yr adeiladau presennol lleol. Gall estyll tywydd pren trwm a bondoeau dwfn greu naws maestrefol yn enwedig ar anheddau unllawr. Gall defnyddio teils coch ar grib y to fod yn addas yn y dref ond ar y cyfan maen nhw'n amhriodol mewn lleoliad gwledig.

Deunydd Toi

Teils: Yn ddelfrydol, dylid defnyddio llechen naturiol ar gyfer y to, sy'n ddeunydd toi traddodiadol yn yr ardal. Hwyrach y gallai llechi artiffisial fod yn dderbyniol ar adeilad newydd, ond nid wrth ehangu to sydd eisoes wedi'i orchuddio â llechi.

Mae teils concriid yn llawer mwy trwchus na llechen, ac mae'r ymylon wedi'u torri'n hollol syth â pheiriant. Fel rheol, nid yw'r deunydd toi hwn yn dderbyniol yng Ngheredigion gan fod toeau o'r fath yn creu llinellau syth a hir, sy'n annodweddiadol o'r ardal. Mae'r teils hyn yn edrych yn rhy fawr ar gyntedd neu ddormer hefyd ac felly'n annerbyniol.

Metel: Yn draddodiadol mae sinc a thun wedi'u defnyddio fel deunydd toi yng Ngheredigion hefyd. Byddai to metel yn cael ei osod dros y to gwellt gwreiddiol am fod angen ei adnewyddu, ond ei bod yn rhatach gosod to metel.

To gwellt: Mae to gwellt ar rai anheddau yng Ngheredigion.



FIGURE 29: ENGHRAIFFT O DO GWELLT YNG NGHEREDIGION

Toeau ac Awyru

Mae'r Rheoliadau Adeiladu yn ei gwneud yn ofynnol i doeau newydd gael eu hawyru'n briodol, ond mae lleoliad a dyluniad yr awyrell yn gallu bod yn rhy amlwg. Er mwyn osgoi'r sefyllfa hon, dylid ystyried yn gynnar yn y broses ble dylid lleoli'r awyrell a pha fath y dylid ei defnyddio.

Sylwer nad yw'n dderbyniol defnyddio deunyddiau anadladwy os oes ystlumod yn defnyddio'r to.

6.2. Manylion y Gorffeniadau

Mae rhoi sylw i fanylion yn gallu ychwanegu rhywbeth arbennig at ddatblygiad neu estyniad newydd. Mae angen ystyried yr elfennau sy'n aml yn cael eu hanghofio neu sy'n cael sylw ar ddiwedd y broses ddylunio.

Dylai'r fynedfa i'r adeilad fod yn amlwg gyda'r drws blaen yn ganolbwynt i'r annedd, ac yn adlewyrchu cymeriad yr adeilad.

Ar y cyfan, dylid osgoi drysau wedi'u gwneud o bren caled trofannol gan ei fod yn dod o ffynonellau anghynaliadwy gan amlaf, nad ydynt yn ecogyfeillgar. Fel rheol, nid yw drysau patio ar flaen y tŷ yn rhywbeth i'w argymhell gan eu bod yn gallu amharu ar gydbwysedd a chymesuredd dyluniad blaen y tŷ.

Wrth ddylunio'r fynedfa, dylech fod yn ymwybodol o'r Rheoliadau Adeiladu sy'n ei gwneud yn ofynnol bod mynedfa pob annedd newydd yn lefel. Er bod hyn yn ofyniad, mae'n bwysig ystyried eich anghenion ar gyfer y dyfodol hefyd. Er enghraifft, os ydych chi'n bwriadu aros yn eich annedd newydd am y rhan fwyaf o'ch oes, bydd cael drysau mewnol ac allanol lletach yn well ar gyfer mynd a dod â phlant bach mewn bygi neu bram a chyda pherthnasau hŷn yn ogystal. Mae polisi **LU02: Gofynion o ran Pob Datblygiad Preswyl** yn ei gwneud yn ofynnol bod pob adeilad newydd yn bodloni Safonau Cartrefi Gydol Oes. Mae'r safonau hyn yn helpu i wneud cartref yn haws ei addasu. Gweler adran Cynaliadwyedd am ragor o wybodaeth.

Simneiau

Mae simneiau yn nodweddion pwysig ar orwelion Ceredigion yn ogystal â bod yn bwysig i olwg y tŷ. Maen nhw'n gyferbyniad fertigol cryf i siâp llorweddol y to ac yn gallu bod yn ychwanegiad cytbwys i ddyluniad y to.

Gan eu bod yn nodwedd draddodiadol yng Ngheredigion, y duedd yw peidio cefnogi dymchwel simneiau sydd eisoes yn bodoli. Os bydd simnai yn achosi drafft ac yn peri bod ystafell yn oer, mae modd gosod balŵn yn y simnai i helpu i reoli llif yr aer.

Fel rheol, bydd simnai wedi'i hadeiladu o frics neu o garreg, a bydd wedi'i lleoli ar dalcen y tŷ. Camgymeriad cyffredin yw adeiladu simnai sy'n rhy fach. Mae'r simnai'n rhan bwysig o olwg y tŷ felly dylid ystyried dyluniad a maint a chyfrannedd y simnai.

Hefyd, mae'n werth ystyried cynnwys simnai sy'n gweithio, gan fod hyn yn golygu y gellid addasu'r annedd maes o law pe dymunid, er enghraifft trwy ychwanegu stof losgi oed. Byddai'n ffynhonnell wres amgen a fyddai'n gallu helpu cynaliadwyedd a hirhoedledd y datblygiad.

Ffenestri


Mae arddull a lleoliad ffenestri'n hynod bwysig i olwg a chymeriad yr annedd. Mae lleoliad a chyfrannedd y ffenestri'n arwyddocaol i olwg orffenedig annedd neu estyniad newydd. Mae eu siâp, y manylion a'r lliw yn cael effaith ar olwg gyffredinol yr annedd/estyniad.

Yn gyffredinol dylai ffenestri:


- Beidio â bod yn rhy fawr, ac ni ddylai arwynebedd y ffenestr fod yn ormodol o gymharu â'r wal solet;
- Dangos pwyslais fertigol i weddu i arddulliau traddodiadol Ceredigion;
- Bod â chasmentau neu fariâu gwydro sydd wedi'u trefnu'n gymesur;
- Ystyried defnyddio ffurfiau lluosog o'r uned sylfaenol, os oes angen ffenestri lletach;

- Cael eu lleoli ar sil ffenestr garreg, llechen neu goncrïd a'u gosod yn ôl o'r wal allanol (gyda *reveal*). Bydd y dyfnder hwn yn gwarchod y ffenestr rhag y tywydd, a dyma arddull y ffenestri a welir yng Ngheredigion;
- Gael eu trwsio yn hytrach na'u hamnewid os oes modd mewn adeiladau cyfredol. Os rhoddir ffenestri newydd, dylai'r deunyddiau a'r cyfraneddau gyfateb i'r ffenestri sydd eisoes yno.

Mae arddull ffenestr yn dibynnu'n fawr ar ddyluniad yr adeilad. Gan fod cymaint o ddewis o wahanol ffenestri, mae'r posibilïadau'n ddi-ben-draw, ac weithiau gall rywbeth sy'n unigryw o ran dyluniad y ffrâm gyfoethogi ac ychwanegu at y strydlun.



FFIGUR 30: ENGHREIFFTIAU O FFENESTRI CASMENT



FFIGUR 31: ENGHREIFFTIAU O FFENESTRI DALENNOG

Rhaid i bob annedd newydd gael gwydro dwbl yn unol â Rhan L (a) o'r Rheoliadau Adeiladu, er mwyn helpu i leihau effaith yr annedd arfaethedig ar yr amgylchedd.

Er mai ffenestri UPVC yw'r rhai hawsaf i'w canfod yn aml, argymhellir defnyddio pren ar gyfer ffrâm y ffenestr. Gan ei fod yn ddeunydd naturiol, mae'n sefyll i reswm bod fframiau pren yn fwy ecogyfeillgar na ffenestri o waith dyn fel rhai metel neu UPVC. Mae hyn yn fwy gwir os yw'r pren yn deillio o ffynhonnell gynaliadwy. Hefyd, mae modd i chi ddewis defnyddio pren sydd wedi'i adfer fel bod fframiau eich ffenestri hyd yn oed yn fwy ecogyfeillgar. Mae rhai o'r ffenestri pren yn cael gwell gradd 'Gwyrdd' yng Nghanllaw Gwyrdd y Sefydliad Ymchwil Adeiladu na rhai UPVC, er enghraifft mae gan ffenestr pren caled hir-oes, gyda gwydro dwbl a phaent sglein seiliedig ar hydoddydd (non-TWAS) radd A+ tra bod gan ffenestr PVC-U gydag atgyfnerthiad dur a gwydro dwbl radd is, sef A. Un rheswm am y radd

is yw bod hyd oes ffenestri UPVC yn llawer llai nag oes ffenestri pren ac yn amrywio o 25 i 35 o flynyddoedd. Mae rhai pren sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n briodol yn gallu para am oes ac yn gwrthsefyll traul yn dda.


Mae ffenestr bren yn fwy deniadol na ffenestr UPVC yn aml ac yn gweddu i anheddau modern a hŷn fel ei gilydd. Gallwch ddewis o blith amrywiaeth o goed, ac mae modd eu peintio, staenio neu eu cerfio i'w gwneud yn unigryw i chi. Bydd hi'n ofynnol cael ffenestri pren ar gyfer anheddau mewn Ardaloedd Cadwraeth neu Adeiladau Rhestredig yn aml.

Ffenestri Dormer

Pan nad oes digon o le uwchben mewn croglofft, hwyrach y gellir creu rhagor o le trwy osod ffenestri dormer.

Mae angen ystyried dyluniad ffenestri dormer yn ofalus gan eu bod yn gallu cael effaith sylweddol ar gymeriad neu olwg yr annedd yn ogystal â'r ardal o gwmpas. Bydd angen ystyried a fydd y dormer yn effeithio ar amwynder trigolion eiddo cyfagos hefyd, h.y., a fydd modd gweld i mewn i'r eiddo cyfagos drwy'r ffenestr dormer.

Dylai ffenestri dormer weddu i nodweddion presennol yr annedd o ran cyfrannedd, maint a lleoliad gan edrych fel pe baent yn rhan o'r adeilad gwreiddiol.



FFIGUR 32: ENGHREIFFTIAU DA A DRWG O FFENESTRI DORMER

Dylai ffenestri dormer:

- Gael eu gwneud o ddeunyddiau sy'n gweddu i'r adeilad presennol;
- Bod yn fach o gymharu â'r to presennol a chael goledd nad yw'n llai na phrif do'r annedd;
- Cael eu gosod gan sicrhau bod wyneb blaen yr ochrau'n cyd-fynd â'r deunydd ar y waliau o'r to;
- Bod o ddyluniad derbyniol, h.y. nid yw dormer â tho mawr gwastad yn dderbyniol.

Pan nad oes angen rhagor o le uwchben, mae modd defnyddio ffenestri to, gan eu bod yn darparu golau dydd mewn croglofft. Ar y cyfan, mae ffenestri to yng nghefn y tŷ yn cael llai o effaith ar y strydlun, ond os oes bwriad i ddefnyddio rhai yn y tu blaen, ni ddylent fod yn rhy fawr a dylai'r pwyslais fod yn fertigol. Os oes mwy nag un ffenestr do, dylent fod yr un faint i gyd, ar yr un lefel ac wedi'u gosod yn gymesur. Dylid osgoi defnyddio nifer fawr o ffenestri to, yn enwedig os gellir eu gweld o ardaloedd cyhoeddus.

7. Blaen Siopau

Mae canol trefi'n allweddol i economi a ffyniant pob ardal. Maent yn rhoi ffocws i weithgareddau adwerthu a chyflogaeth yn ogystal ag adlewyrchu ac arddangos rhinweddau'r ardal. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i wella ansawdd, bywiogrwydd a hyfywedd ei ganolfannau siopa.

Felly mae ansawdd, bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi'n hanfodol bwysig. Er mwyn gwella ansawdd gweledol strydoedd siopa, rhaid defnyddio deunyddiau priodol a chyfaddas a sicrhau bod blaen y siopau wedi'u dylunio'n dda.

Diben y canllawiau hyn yw rhoi cyngor i bobl sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio i addasu, gwella ac adfer eu heiddo masnachol. Mae'r canllawiau hefyd ar gyfer perchnogion adeiladau er mwyn sicrhau bod gwelliannau'n cael effaith bositif ar y treflun cyfagos. Mae'r canllawiau'n egluro safon y dylunio y mae'r Cyngor yn ei ddisgwyl gan ymgeiswyr.

Mae Canllawiau Cynllunio Atodol neilltuol wedi'u datblygu ar gyfer blaenau siopau Aberystwyth, ac mae'n rhaid eu defnyddio wrth wneud cais ar gyfer yr ardal honno. Mae'r ddogfen 'Canllaw i Ddylunio Blaenau Siopau Aberystwyth' ar gael trwy'r ddolen ganlynol: www.ceredigion.gov.uk/ldp

Ar ddiwedd yr adran hon, mae rhestr o gwestiynau y dylech eu gofyn i chi'ch hun wrth ddylunio blaen eich siop. Bydd y cwestiynau'n eich helpu i ystyried elfennau dylunio blaen y siop mewn cynllun sy'n briodol i'r ardal ac sy'n wledd i'r llygad.

7.1. Yr Angen i gael Caniatâd: Rhai Mathau o Flaenau Siopau

Yn gyffredinol mae'n ofynnol cael caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw newid i olwg allanol siop gan gynnwys gosod caeadau neu fleinds.

Mewn Ardal Gadwraeth efallai bydd angen caniatâd arbennig ar gyfer newid blaen siop hefyd. Er mwyn newid Adeilad Rhestredig, gan gynnwys gwaith mewnol sy'n

effeithio ar gymeriad yr adeilad, bydd yn ofynnol cael Caniatâd Adeilad Rhestredig hefyd.

7.2. Mathau o Flaen Siopau

Blaen Siopau Traddodiadol

Mae gan lawer o leoliadau gydag unedau masnachol yng Ngheredigion ffurfiau adeiledig hanesyddol cyfoethog. Mae hyn yn golygu bod gennym lawer o siopau traddodiadol eu diwyg sydd angen eu cadw a'u gwella.

Mae llawer o ganolfannau siopa Ceredigion yn rhes hir o adeiladau teras tal gyda phwyslais fertigol cryf. Yn aml, mae'r llawr gwaelod yn eiddo adwerthu gyda lle byw uwchben, ac mae llawer wedi cadw blaen traddodiadol y siop. Dylid eu cadw os oes modd, gan wneud addasiadau sy'n gweddu i'r arddull a'r manylion presennol.

Blaen Siopau Modern

Os oes siop newydd yn symud i mewn i adeilad sydd eisoes yn bodoli, dylai ddefnyddio elfennau blaen siop traddodiadol er mwyn gweddu'n well i weddill yr adeilad.


Yn aml iawn, mae cadw, atgyweirio ac addasu blaen siop traddodiadol yn well na gosod un modern yn ei le. Bydd y Cyngor yn gwrthwynebu unrhyw gais sy'n cynnig tynnu blaen siop traddodiadol a'i gyfnewid am un modern anghydawns.

Mewn rhai ardaloedd yng Ngheredigion, mae blaen siopau mwy modern wedi cael eu defnyddio. Fel rheol, mae'r math hwn o flaen siop yn cynnwys arwynebedd mawr di-dor o wydr plât, gyda drws sy'n gyfwyneb â'r stryd. Mae'r ffrâm yn alwminiwm neu'n blastig fel rheol.

Os caiff blaen siop modern o'r fath ei roi ar hen adeilad, mae'n creu golwg ansefydlog a phendrwm.

7.3 Beth sy'n gwneud Blaen Siop

Mae blaen siop yn rhan amlwg o du blaen y rhan fwyaf o adeiladau masnachol. Mae dyluniad a swyddogaeth blaen y siop yn rhan annatod o olwg yr adeilad cyfan.



FFIGUR 33: DARLUN O FLAEN SIOP

Ffasgia

Mae'r ffasgia yn lle i roi enw'r siop a natur y busnes. Mewn siopau traddodiadol rhoddir y ffasgia ar ongl tuag i lawr. Dylai'r enw ymddangos yn glir ac mae ansawdd yr arwydd ei hun yn hysbyseb ar gyfer ansawdd y nwyddau a geir yn y siop.

Tra gall ffasgia modern fod yn briodol i rai adeiladau traddodiadol, yn aml mae'r deunyddiau a'r lliwiau ar ffasgia modern yn anghydnaws â'r adeilad cyfan. Maen nhw'n rhy fawr ac yn rhy amlwg ar fframwaith blaen y siop. Dylai'r ffasgia:

- Fod o fewn lled agoriad blaen y siop rhwng y pilastrau bob ochr;
- Cael ei fframio lle bo'n briodol gan gornis ac architraf destlus gorffenedig;
- Cael ei osod ar yr un uchder â ffasia siopau cyfagos. Mae hyn yn creu strydlyn sy'n fwy deniadol gan sicrhau bod blaen pob siop yn cadw'r cyfrannedd gwreiddiol;
- Peidio ag estyn dros fwy nag un blaen siop, er bod yr un perchennog yn eu defnyddio;
- Peidio â chuddio sil ffenestri neu nodweddion pensaernïol y lloriau uwchben;
- Peidio â chuddio, niweidio neu sefyll o flaen manylion pensaernïol hanesyddol a gweledol bwysig.

Mae arwyddion o ansawdd da'n gallu cyfoethogi ardal, gan ddangos ei bod yn ardal siopa annibynnol, gydag adwerthwyr unigryw.



FFIGUR 34: BLAEN SIOP TRADDODIADOL YN LLANBEDR PONT STEFFAN

Elfennau Fertigol

Darn gwastad o bren petryal yw'r pilastr sy'n sefyll fel colofn bob pen i flaen y siop. Mae'r pilastrau'n gwneud ffrâm fertigol ac yn rhannu blaen siopau'r stryd yn ffisegol a gweledol. Dylid ailosod neu atgyweirio pilastrau sydd wedi'u difrodi neu a gafodd eu tynnu, er mwyn ailsefydlu rhythm yr adeiladau. Dyma rai pethau i'w hystyried:

- Dylai'r deunyddiau ar gyfer pilastrau newydd weddu i ddyluniad yr adeilad, yr adeilad cyfochrog a'r stryd.
- Dylid trin pilastrau fel nodwedd gydlynol unigol a pheidio â'u trin / peintio yn ddau hanner pan fyddant yn perthyn i ddau adeilad.
- Ni ddylid tynnu pilastrau na'u newid er mwyn gosod hysbyseb lletach na'r ffasgia gwreiddiol.

Paneli dan Ffenestr

Mae paneli dan y ffenestr yn gyffredin i'r rhan fwyaf o flaen siopau traddodiadol, ac yn rhoi sylfaen weledol i'r blaen siop cyfan. Maen nhw'n darparu sylfaen weledol gref i flaen y siop ac yn gallu bod o fudd ymarferol o ran lleihau'r posibilrwydd o ddifrod neu dorri paneli gwydr.

Os defnyddir deunydd a dyluniad priodol, gall paneli dan ffenestr greu cymeriad unigryw i flaen siop gan roi pwyslais llorweddol cryf i'r stryd.

Byddant yn amrywio o ran uchder yn ôl diben y siop, ond dylent fod yn ddigon uchel i fod yn angor gweledol i'r stryd yn gyffredinol. Bydd uchder y panel dan ffenestr yn dibynnu ar natur y nwyddau a ddangosir yn y ffenestr. Er enghraifft, mae gemydd neu gigydd yn hoffi cael eu nwyddau'n nes at lygad y cwsmer felly byddai panel dan ffenestr uwch yn briodol, tra bod siop ddillad am gael cymaint o le â phosibl i arddangos eu nwyddau ac felly'n defnyddio panel llai o faint. Dylai adwerthwyr modern ddefnyddio'r egwyddor hon. Mae'n annhebygol y byddai siopau gyda gwydr hyd at lefel y llawr yn dderbyniol, o gofio bod gan paneli dan ffenestr swyddogaeth ddefnyddiol a gweledol o bwys.

Drysau a Mynedfeydd

Mae drysau a dyluniad y drws yn bwysig i olwg y siop. Dylai cynllun y drws olygu bod pawb yn gallu cael mynediad. Mae deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi hawliau mynediad pwysig i bobl ag anableddau i wasanaethau bob dydd. Mae rhai o bwerau'r Ddeddf yn cael eu gweithredu drwy Ran M o'r Rheoliadau Adeiladu (mynediad i adeiladau a'r defnydd ohonynt), sy'n pennu'r darpariaethau statudol ar gyfer safonau gofynnol yn ymwneud â mynedfeydd i adeiladau cyhoeddus a masnachol.

Dylai'r drws fod yn elfen weledol gref ym mlaen y siop a dyma rai pwyntiau i'w hystyried:

- Dylai drysau fod yn ysgafn.
- Dylai arwyddion megis 'gwthiwch', 'tynnwch' ac ati fod yn hawdd eu darllen.
- Dylai drysau sy'n wydr yn bennaf fod yn amlwg a chlir fel bod pobl â nam ar eu golwg yn llwyr ddeall ble mae lleoliad y drws.
- Dylai'r dolenni ar y drws fod mewn lliw sy'n amlwg yn wahanol i arwyneb y drws.
- Dylai arddull a deunyddiau'r drws weddu i weddill blaen y siop. Yn aml, lleolir y drws mewn cilfach ar flaen siopau traddodiadol gan greu mynedfa groesawgar ac ychwanegu elfen tri dimensiwn unigryw.

Ffenestri

Mae dyluniad y ffenestri a'r drysau yn elfennau allweddol yng nghyd-destun yr adeilad a'r strydlun y maent yn perthyn iddynt. Mae fframiau'r ffenestri, y mwliynau, y trawslathau a'r bariau gwydro yn rhoi ffrâm i'r ardal arddangos ac yn rhoi undod i flaen y siop gan ei gwneud yn fwy diddorol yn weledol. Os nad yw ffenestri'n cael eu dylunio'n amhriodol, gall hyn effeithio ar gydbwysedd yr adeilad a'r strydlun.

Mae ffenestri a gwydr gwreiddiol yn nodweddion pwysig o adeiladau hanesyddol. Dylai ffenestr y siop fod yn dryloyw ac yn arddangos y nwyddau sydd ar werth yn glir.

Mae arwynebedd mawr o wydr plât gyda phwyslais llorweddol fel rheol yn anghymesur â gweddill y gweddllun, yn enwedig os caiff ei ddefnyddio mewn hen adeiladau. Gall rhannu arwynebeddau mawr o wydr â mwliynau fel rhan o ffrâm y ffenestr, gan roi cyfrannedd fertigol i bob darn gwydrog, greu effaith fwy deniadol.

Dylai elfennau megis bariau gwydro, trawslathau a mwliynau gyd-fynd â chyfrannedd a graddfa gweddill yr adeilad. Dylid dylunio'r elfennau hyn yn arbennig i adlewyrchu cyfnod pensaernïol blaen y siop a'r adeilad.

Dylid cadw'r gwydr mor syml â phosibl gan gyfyngu ar unrhyw baneli, ysgythru a barugo a'i ddefnyddio at ddibenion addurnol yn unig. Yn gyffredinol, mae canllawiau ar gyfer ffenestri yn:

- Parchu cyfrannedd a graddfa nodweddion presennol blaen y siop gan gynnwys y ffenestri ar y lloriau uchaf. Ni chaniateir ffenestri sy'n rhy fawr i weddu i flaen y siop.
- Defnyddio bariau gwydro a thrawslathau sy'n rhoi mwy o gymeriad i flaen y siop.

Mae'r ffenestri ar y lloriau uchaf yr un mor bwysig â ffenestri blaen y siop. Dylid cadw fframiau'r ffenestri'n syml a chyson trwy'r adeilad cyfan gan ddefnyddio'r un lliw ar y lloriau uchaf ag ar y siop. Dylid tynnu unrhyw ffenestri amhriodol a gosod rhai tebyg i'r gwreiddiol lle bo modd.

Y cyngor gorau i ymgeiswyr yw y dylent gadw a thrwsio'r ffenestri pren neu fetel gwreiddiol. Yn aml, mae'n fwy cost effeithiol i atgyweirio'r rhai pren na'u cyfnewid am rai newydd. Os yw'n gwbl angenrheidiol eu newid, dylid eu cyfnewid am rai o'r un deunydd a manylion dylunio fel eu bod yn union yr un fath â'r gwreiddiol.

Mae unedau gwydro dwbl tenau ar gael y gellir eu gosod i mewn i fframiau ffenestr gwreiddiol a dyma fyddai'r dewis gorau pe na bai modd atgyweirio'r ffenestri presennol.

Gall fod yn dderbyniol gosod unedau UPVC newydd yn lle hen unedau weithiau, pan fyddai defnyddio UPVC yn amlwg yn fanteisiol (er enghraifft, gosod unedau UPVC newydd yn lle rhai blaenorol sydd o ansawdd gwael). Dylid tynnu ffenestri amhriodol a gosod rhai priodol yn eu lle, lle bynnag y bo modd.

Pan fo bwriad i osod unedau UPVC, dylai'r gwneuthuriad fod yn grefftus ac o safon uchel fel ei bod yn anodd gweld gwahaniaeth rhyngddynt a ffenestri pren gwreiddiol. Gan amlaf, byddai hyn yn cynnwys y nodweddion canlynol:

- Effaith graen pren gan roi'r argraff o bren gwyn wedi'i beintio.
- Bariau gwydro allanol o siâp gwreiddiol, wedi'i gosod ar yr wyneb (lle bo'n briodol)
- Lled priodol i'r rheiliau / casyn y ffenestr fel y rhai gwreiddiol. Er enghraifft, mae rheilen isaf ddyfnach ar lawer o ffenestri dalennog.
- Uniadau sy'n efelychu'r rhai gwreiddiol, fel uniadau 'mortais' a 'thyno'
- Arddull tebyg am debyg
- Dylai lleoliad y mwlynnau a'r trawslathau gydymffurfio â'r ffenestri gwreiddiol neu ag eraill yn yr ardal gyfagos.

Toeau

Wrth fynd ati i wella golwg adeilad dylid ystyried y to.

Mae arwyddocâd y to yn deillio o oed, perfformiad ymarferol, siâp, goleddf, proffil, deunyddiau a nodweddion cysylltiedig y to. Mae'r elfennau hyn yn cyfuno i roi cymeriad i'r adeilad a dylid parchu hyn wrth ystyried gwneud gwaith cynnal a chadw neu addasiadau.

Llechen yw'r deunydd a ddefnyddir amlaf ar doeau yng Ngheredigion, a cheir rhai enghreifftiau o glai ar rai adeiladau a godwyd ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Fel rheol defnyddir llechi fel slab tenau sydd yr un trwch a maint; mae'r cyrsiau'n gyson. Wrth wneud gwaith cynnal a chadw ac ailosod toeau, mae'n bwysig defnyddio llechi â'r trwch a'r lliw priodol. Dylid gosod y llechi yr un fath â'r rhai presennol, os defnyddir patrwm neu arddull er enghraifft.

Llechi o Gymru yw'r deunydd mwyaf priodol i'w ddefnyddio gan eu bod yn para'n dda ac yn briodol o ran eu golwg. Er y gellid defnyddio llechi sydd wedi'u mewnforio, bydd yn rhaid ystyried eu lliw'n ofalus.

7.4 Diogelwch

Er bod pobl yn meddwl yn aml bod mwy o droseddu mewn canolfannau siopa nag sydd mewn gwirionedd, mae yna adegau pan y gall defnyddio mesurau diogelwch fod yn briodol.

Ni ddylai mesurau diogelwch amharu ar gymeriad neu olwg adeilad; fel arall gall ardal siopa gyfan ymddangos yn annymunol i gwsmeriaid, ac mae angen eu presenoldeb nhw i sicrhau bod y ganolfan siopa yn parhau'n hyfyw.

Gall systemau diogelwch gael effaith sylweddol ar olwg blaen y siop, yn enwedig yn ystod y nos ac ar benwythnosau gyda rhai mesurau diogelwch yn gwneud i ganolfannau siopa deimlo fel caer filwrol.

Mae caeadau solet yn cael effaith niweidiol ar olwg ardal siopa, ac maen nhw'n haws eu peintio â graffiti na mesurau diogelwch eraill, felly dylid eu hosgoi. Mae caeadau a/neu gril mewnol yn fwy deniadol, ac yn well dewis gan amlaf.

Os oes rhaid cael caead allanol, byddai caead o estyll yn fwy addas a dymunol o ran golwg.

Mesur diogelwch pellach yw defnyddio gwydr wedi'i lamineiddio. Mae'n anos torri drwy wydr sydd wedi'i lamineiddio, gan y gall y gwydr allanol dorri ond y bydd yr haen fewnol yn aros yn gyfan ac yn parhau i fod yn rhwystr. Gall wrthsefyll pob math o wrthrychau trwm megis briciau, morthwylion, trosolion a gwrthrychau llaw trwm eraill. Felly, mae'n amddiffyniad effeithiol yn erbyn lladron gan ei fod yn atal neu arafu'r broses o dorri i mewn i'r eiddo.



FFIGUR 35: ENGHREIFFTIAU O GRIL DIOGELWCH

7.5 Hysbysebu

Mae hysbysebu busnes yn hanfodol felly mae'n bwysig bod y dull hysbysebu o safon uchel.

Yn gyffredinol, mae'n haws adnabod busnes os mai dim ond un neu ddau arwydd clir sydd ganddo.

Yn bennaf, dylai'r arwydd gael ei roi ar ffasgia blaen y siop. Er mwyn sicrhau bod ansawdd a golwg blaen siopau'n safonol, dylai'r arwydd fod yn weddus o ran:

- maint;
- lliw;
- llythrennau/lluniau;
- goleuo.

Gall hysbysebion o ansawdd da ddenu cwsmeriaid trwy gyfleu ansawdd a safon dda.

Gall fod yn briodol rhoi arwyddion megis llythrennau gwydro neu arwyddion crog ar flaen y siop hefyd. Os bydd arwydd crog o safon dda, gall ychwanegu elfen ddiddorol

at y strydlun, ond gall arwyddion sydd wedi'u lleoli neu eu dylunio'n wael amharu ar gynllun blaen y siop a gwneud i'r strydlun edrych yn anniben.

Mewn ardaloedd siopa traddodiadol, mae arwyddion fflat wedi'u peintio a'u hongian wrth fracedau'n addas ac yn dderbyniol. Gellir derbyn arwyddion crog anghyffredin neu rai sy'n estyn tuag allan os ydynt o'r maint priodol ac nad ydynt yn amharu ar gymeriad yr uned siopa. Dylai arwyddion crog fod fel a ganlyn:

- Dylai eu maint fod yn gymesur i faint blaen y siop;
- Ddim lletach na ffasgia'r siop;
- Yr un maint a'r un lleoliad ar yr adeilad â rhai ar flaenau siopau eraill;
- Eu gosod ar lefel y ffasgia;
- Eu goleuo o'r tu allan yn gynnil, nid yw bocsys sy'n cael eu goleuo o'r tu mewn yn dderbyniol.

Ni ddylid dyblygu arwyddion ac nid yw'n addas rhoi arwyddion ychwanegol ar y lloriau uwchben y siop. Dylid osgoi defnyddio arwyddion y bydd hysbysebwr yn eu darparu, am eu bod yn amharu ar symlrwydd yr adeilad ac yn gwneud i grŵp o adeiladau ymddangos yn anniben. Dylid osgoi gosod arwyddion unigol sydd wedi'u goleuo o fewn arddangosfa'r ffenestr hefyd.

7.6 Canopïau a Bleindiau

Mae bleindiau a chanopïau yn gallu bod yn ychwanegiad cadarnhaol at y strydlun o'u dylunio'n briodol. Maen nhw'n cynnig cysgod rhag y glaw ac yn amddiffyn nwyddau sy'n cael eu harddangos yn y ffenestr rhag yr haul. Gweler hefyd y 'Canllaw i Ddylunio Blaenau Siopau Aberystwyth' sydd ar gael trwy'r ddolen ganlynol: www.ceredigion.gov.uk/ldp

Mae bleindiau'n gallu amddiffyn nwyddau darfodus rhag difetha mewn haul cryf a thywydd garw gan helpu i gadw tu mewn y siop yn oer. Bleindiau rholer y gellir eu tynnu allan yw'r ateb gorau, gan eu bod yn ymddangos yn rhan annatod o flaen y siop ac y gellir eu cadw pan nad oes eu hangen.

Cynfas neu blastig dros ffrâm fetel yw'r deunyddiau ar gyfer canopïau Iseldiraidd. Maen nhw'n cuddio nodweddion pensaernïol ac yn tarfu ar weddlun yr adeilad. Prin eu bod yn perthyn i dreftadaeth trefi Ceredigion, lle'r oedd canopïau a bleindiau rholer traddodiadol yn gyffredin. Mae siopau yn dueddol o'u gadael ar agor yn barhaus, a bydd y deunydd yn dirywio ac yn edrych yn aflêr. Yn gyffredinol, nid yw canopïau Iseldiraidd yn dderbyniol oni bai y gellir cyfiawnhau dewis canopi o'r math hwn.

Os bwriedir defnyddio canopi neu fleind, dylent gael eu gosod oddi mewn i'r nodweddion pensaernïol presennol a'r arwydd ar y ffasgia, a pheidio â'u cuddio. Mae defnyddio deunyddiau traddodiadol (cynfas fel rheol) yn gallu gwella ansawdd blaen y siop a'r strydlun.

7.7 Goleuadau

Gall ansawdd y goleuo gael effaith fawr ar ansawdd blaen siop. Dylid ystyried y goleuadau fel rhan o'r cynllun cyffredinol, yn hytrach na rhywbeth i'w ychwanegu maes o law. Mae goleuo cynnil yn gallu bywiogi strydlun gyda'r nos. Bydd arwyddion wedi'u goleuo oddi mewn sydd wedi'u dylunio'n wael yn edrych yn ddi-chwaeth yn hytrach na deniadol. Dylai'r goleuadau fod yn ddigon llachar i dynnu sylw at flaen y siop ond yn gynnil o ran y ffitiadau goleuo a lefel y golau. Gweler hefyd dudalen 39 y 'Canllaw i Ddylunio Blaenau Siopau Aberystwyth' ar gael trwy'r ddolen ganlynol: www.ceredigion.gov.uk/ldp

Dylid gwarchod rhag goroleuo gan fod hyn yn gallu amharu ar y cydbwysedd goleuo gan wrthdaro â goleuadau stryd. Wrth ystyried y goleuadau dylid cofio:

- **Goleuadau Allanol:** Yn ddelfrydol dylid cuddio ffynonellau golau a'u cyfeirio'n ofalus at y ffasgia gan osgoi golau rhy lachar. Dylai'r unedau goleuo eu hunain fod mor gynnil â phosibl a pheidio â thynnu unrhyw sylw oddi wrth y ffasgia. Mae lampau addas yn cynnwys llifoleuadau twngsten halogen, sbotoleuadau twngsten, sbotoleuadau LED a thwngsten foltedd isel, breichiau metel gyddfdro a thiwbiau fflwroleuol cudd. Dylid cuddio'r holl waith gwefru a'r cwndidau y tu ôl i'r ffasgia.

- **Llythrennau wedi'u hôl-oleuo:** Gall llythrennau plastig led dryloyw neu graffeg wedi'i osod mewn panel di-draidd a'u hôl-oleuo fod yn dderbyniol ac yn ffordd gynnil o oleuo'r ffasgia os yw'r blwch golau wedi'i osod yn llwyr y tu ôl i'r ffasgia.
- **Lleugylchu Llythrennau Unigol:** Gall llythrennau unigol sefyll uwchlaw'r arwyneb a'u hôl-oleuo i greu effaith lleugylch; dyma driniaeth sy'n addas ar gyfer ffasgia neu eu gosod ar wal. Os defnyddir y dull hwn, dylai fod yn gynnil a dylid defnyddio llythrennau unigol o ansawdd da. Nid yw llythrennau plastig yn dderbyniol ar gyfer adeiladau rhestredig.
- **Tiwbiau Catod Oer:** Bydd arwyddion neon graffig chwaethus yn dderbyniol yn unig os yw eu maint yn gymedrol, eu bod o un lliw a phalet cyfyngedig.
- **Arwyddion Crog neu Estynnol:** Nid yw arwyddion blwch wedi'u goleuo yn dderbyniol o gwbl. Fodd bynnag, gellir ystyried arwyddion crefftus a chwaethus sy'n defnyddio tiwbiau fflwroleuol tenau ac yn goleuo'r llythrennau neu'r graffeg yn unig. Dylai goleuadau ar gyfer arwyddion crog fod yn allanol, yn gynnil ac wedi'i gyfeirio'n dda.
- **Goleuo Adeiladau:** Mae goleuadau ar gyfer arddangosfa'r ffenestr yn cyfrannu at amgylchedd diogel gyda'r nos. Mae croeso arbennig i sbotoleuadau cynnil sy'n pwysleisio nodweddion pensaernïol yr adeilad. (Canllaw Cynllunio Blaenau Siopau a Ffasadau Masnachol Aberystwyth, 2013)

7.8 Bygythiadau

Gydag amser, gall gweddluniau adeiladau ddirywio yn sgil ychwanegiadau anaddas, gwaith cynnal a chadw anfynych a/neu o ansawdd gwael a cholli nodweddion gwreiddiol. Dyma rai o'r problemau cyffredin y mae adeiladau masnachol hanesyddol yn eu hwynebu:

- Ffenestri amhriodol/wedi'u tynnu/wedi'u cau;
- Arwyddion amhriodol/o ansawdd gwael;
- Cael gwared ar y nodweddion hanesyddol;
- Blaenau'r siopau yn anghymesur;
- Defnyddio lliwiau amhriodol;

- Dewis deunyddiau megis alwminiwm yn hytrach na phren ar gyfer ffasâd hanesyddol;
- Diffyg gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio sylfaenol.

Ni fydd y Cyngor yn cymeradwyo unrhyw gais sy'n cyfrannu at ddifetha'r amgylchedd hanesyddol ymhellach.

7.9 Cwestiynau i'w Gofyn i chi'ch Hun

Fel pob datblygiad arall, mae nifer o elfennau sydd angen eu hystyried wrth roi eich cais ynghyd fel a ganlyn:

- **Y Strydlun:** elfennau gweledol y stryd, pa fath o adeiladau sydd yno (traddodiadol, modern neu gymysgedd), coed, dodrefn stryd ac ati.
 - I ba raddau mae eich eiddo yn gweddu i weddill y strydlun? A yw'n ategu neu'n amharu arno?
- Trin yr adeilad fel un:
 - A yw'r blaen siop presennol yn cyd-fynd â gweddllun yr adeilad?
 - A yw'r lloriau uwchben yn adlewyrchu'r lliwiau a'r deunyddiau a ddefnyddiwyd ar y llawr isaf?
 - Pan fo gan adeilad flaen siop, dylai fod yn 'sylfaen' i'r adeilad cyfan e.e. dylai'r lliw sylfaenol fod yr un fath, dylai lliw'r gwaith pren fod yr un fath ac ati.
 - Dylid gwneud gwelliannau o ansawdd uchel i'r ffasâd cyfan. Mae hyn yn cynnwys tynnu hen ffitiadau diangen fel arwyddion, gwifrau ac ati a glanhau neu beintio unrhyw waith brics a gwaith carreg.
 - Dylai'r cafnau a'r pibau glaw fod o gynllun da a chael eu cynnal a'u cadw i safon uchel.
 - Dylid cynnal rhythm y lloriau uchaf yn yr un modd neu eu hadfer os oes angen.
- Dyluniad blaen y siop:
 - A yw'r dyluniad presennol yn ategu neu'n difetha'r adeilad?
 - A oes yna unrhyw hen elfennau o flaen y siop y gellid eu cadw a'u hadfer?

- Dylid cadw blaenau siopau gwreiddiol a nodweddion pensaernïol eraill a'u hatgyweirio yn hytrach na'u disodli.
- Dylid adfer unrhyw nodweddion gwreiddiol sydd wedi'u cuddio gan ychwanegiadau diweddar.
- Pan fo angen blaen siop newydd dylai fod yn gymesur â gweddill yr adeilad gan roi ystyriaeth briodol i eiddo cyfagos. Dylai'r dyluniad fod yn sensitif i gyd-destun a chymeriad penodol yr ardal.
- Arwyddion:
 - A oes logo cenedlaethol yn gysylltiedig â'r datblygiad?
 - A oes rhaid defnyddio ffont neu liw penodol ar gyfer yr arwydd?
 - A yw arddull y graffeg, yr hysbyseb a'r goleuo'n briodol i weddill blaen y siop, yr adeilad a'r strydlun?
 - A yw enw'r busnes yn cael ei gyflwyno mewn modd sy'n gymesur â ffasâd yr adeilad ac yn cyfateb i ddimensiynau'r ffasgia?
 - Dylai goleuadau blaen siop ddefnyddio goleuadau allanol yn hytrach na blychau sydd wedi'u goleuo oddi mewn.

Canopiâu/bleindiau:

- Ydych chi angen canopi/bleind?
- A yw'n briodol cael bleind/canopi?
- Ydych chi wedi ystyried sut bydd y dyluniad yn gweddu i arddull gyffredinol yr adeilad?

Mynediad:

- A yw blaen y siop yn caniatáu i bawb gael mynediad gan gynnwys pobl ag anableddau a nam ar eu golwg?

Diogelwch:

- A yw dyfeisiau diogelwch yn cuddio unrhyw nodweddion pensaernïol ar yr adeilad neu'n cael effaith negyddol ar olwg yr adeilad?
- A ystyriwyd gosod gril diogelwch mewnol sy'n llithro i'w lle?
- Ni ddylai'r rhagofalon diogelwch fod yn fwy na'r hyn sy'n rhesymol er mwyn diogelu rhag byrgrleriaeth a fandaliaeth.

8. Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau)

Yn sgil y newid yn yr hinsawdd, mae heriau ychwanegol i'w hwynebu o ran dulliau newydd o reoli dŵr. Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy yw'r ateb gan fod nifer o fanteision iddynt fel gwella ansawdd bywyd, cynyddu bioamrywiaeth, lleihau'r perygl o lifogydd gan sicrhau ein bod yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd yn well.

Bydd y canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth a chyngor i ddatblygwyr ac ymgynghorwyr i roi SCDau ar waith fel y dull a ffeirir ar gyfer gwaredu dŵr wyneb.

8.1 Beth yw SDCau?

Datblygwyd Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy sy'n ystyried maint, ansawdd ac amwynder.

Prif ddiben SDCau yw dynwared draeniad naturiol o'r safle cyn ei ddatblygu. Maent yn wahanol i'r dull traddodiadol o gasglu dŵr storm mewn pibau a'i arllwys i weithiau trin a/neu gyrsiau dŵr. Trwy ddefnyddio SDCau byddwn yn sicrhau nad yw afonydd a chyrsgiau dŵr naturiol yn dioddef unrhyw effeithiau niweidiol i ansawdd y dŵr am fod gollyngiadau o ddatblygiadau newydd yn llifo i mewn iddynt.

Yn draddodiadol, cynlluniwyd systemau draenio i gasglu a chludo dŵr glaw o'r ardal lle'r oedd wedi disgyn i fan dynodedig cyn gynted â phosibl.

Mae SDCau yn fwy cynaliadwy na dulliau draenio confensiynol, a chaiff ei ystyried yn ddull o reoli dŵr wyneb er mwyn lleihau perygl llifogydd a sicrhau manteision fel:

- Rheoli a lleihau dŵr ffo o'r wyneb fel bod llai o berygl o lifogydd dŵr wyneb a gorlwytho carthffosydd o'r herwydd. Amddiffyn a/neu wella ansawdd y dŵr wrth i'r system drin dŵr llygredig yn effeithiol a chael gwared ar waddodion mewn daliant.
- Systemau sy'n ystyriol o bob safle unigol – Mae llawer o nodweddion gwahanol yn perthyn i SDCau sy'n addas i gyfyngiadau safle.
- Mae'r systemau'n cynyddu amrywiaeth y cynefinoedd ar gyfer planhigion a bywyd gwylt ac yn gwella bioamrywiaeth.

- Darparu storfeydd dŵr hir a byr dymor.
- Caniatâu i ddŵr suddo/treiddio i mewn i'r ddaear.
- Darparu nodweddion deniadol, defnyddiol a phleserus.

8.2 Polisiau sy'n gysylltiedig â SDCau

Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn ei gwneud yn ofynnol bod SDCau yn cael eu rhoi ar waith fel atebion â blaenoriaeth ar gyfer gwaredu dŵr wyneb ym mhob datblygiad newydd.

Ar hyn o bryd mae rheoliadau Adeiladu Rhan H: Draenio a Gwaredu Gwasttraff, yn datgan mai opsiynau ymdreiddiad a ddylid eu hystyried gyntaf ar gyfer gwaredu dŵr glaw. Pan nad yw hyn yn bosibl dylai'r dŵr ollwng i mewn i gwrs dŵr, ac ni ddylid ystyried gollwng i mewn i garthffos heb fod wedi ystyried ymarferoldeb pob opsiwn arall.

Mae canllawiau polisi ar ffurf Polisi Cynllunio Cymru yn cynghori y dylai awdurdod lleol, wrth ystyried ceisiadau datblygu, gydweithio â'r holl gyrff angenrheidiol, er enghraifft, Cyfoeth Naturiol Cymru, cwmnïau dŵr ac ati, gan sicrhau bod dŵr ffo o'r wyneb yn cael ei reoli mor agos i'r ffynhonnell ag sy'n bosibl trwy ddefnyddio SDCau.

Cefnogir hyn hefyd gan Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd sy'n cynghori na ddylai datblygiad greu dŵr ffo ychwanegol o gymharu â'r sefyllfa annatblygedig h.y. ni ddylai'r datblygiad greu rhagor o ddŵr ffo na phe na bai'r safle wedi cael ei ddatblygu. Dywed y Nodyn y gall yr awdurdod lleol osod amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol defnyddio SDCau mewn datblygiad hefyd.

Wrth wneud unrhyw waith y tu mewn i gwrs dŵr, neu oddi tano, drosto ac arno, sy'n debygol o effeithio ar lif y cwrs dŵr, efallai y bydd angen caniatâd neilltuol. Bydd angen i rywun sy'n bwriadu gwneud unrhyw waith mewn prif afon, a drosti, oddi tani neu'n gyfagos iddi, gael caniatâd gan Gyfoeth Naturiol Cymru'n gyntaf. Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru is-ddeddfau hefyd sy'n ei gwneud hi'n ofynnol bod angen caniatâd i wneud gwaith yn y prif afonydd neu'n gyfagos iddynt a'u gorlifdiroedd. Mae'r prif afonydd wedi eu dynodi ar fapiau Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion

Gwledig (DEFRA), Llywodraeth Cymru (LIC) a Chyfoeth Naturiol Cymru (NRW). Cyfeirir at gyrsiau dŵr eraill fel cyrsiau dŵr cyffredin. Mae'r darpariaethau cyfreithiol sy'n ymwneud â chyrsiau dŵr cyffredin i'w cael yn Adran 23 Deddf Draenio Tir 1991. Bydd angen caniatâd gan Gyngor Sir Ceredigion (Pennaeth Asedau a Thrafnidiaeth – Llifogydd a'r Arfordir) ar gyfer unrhyw gynigion i adeiladu neu i newid argae melin, cored neu rwystr tebyg i'r llif, ar unrhyw gwrs dŵr cyffredin. Bydd angen caniatâd hefyd i adeiladu neu i newid cwlferd a fyddai'n debygol o effeithio ar y llif.

Dylid trafod y cynnig gyda'r Awdurdod i ddechrau cyn penderfynu a oes angen Caniatâd ai peidio. Bydd hynny yn sicrhau y gellir asesu'r gwaith arfaethedig o ran ei effeithiau ac a fyddai'r gwaith yn achosi neu'n gwaethygu problem lifogydd gyfredol, ac nad yw'n cael effaith andwyol ar yr amgylchedd, y pysgodfeydd a'r bywyd gwylt lleol hefyd.

Os yw datblygwr yn credu na ellir sicrhau SCDau, yna dylid darparu cyfiawnhad ysgrifenedig llawn gyda'r cais cynllunio i egluro pam mai felly y mae.

8.3 Sut mae SCDau yn gweithio?

SCDau yw'r dull a ffefrir o reoli glawiad ac mae'n cynnwys un neu fwy o elfennau i gasglu dŵr ffo o'r wyneb a chaniatáu cymaint ag y gellir ohono i anweddu neu i dreiddio i mewn i'r ddaear yn agos i'r man lle syrthiodd y glaw a throsglwyddo'r gweddill ar yr un gyfradd a chyfaint ag a wnaed cyn creu'r datblygiad er mwyn lleihau llif gollyngiadau ar eu huchaf. Mae pedwar dull derbyniol o reoli dŵr wyneb:

- Atal – mae modd gwella ansawdd trwy reoli'r safle'n dda. Mae dulliau atal yn cynnwys dyluniad, cynnal a chadw ac addysgu defnyddwyr;
- Lleiniau hidlo a phantiau - arwynebau llystyfiant sy'n caniatáu i'r dŵr lifo'n gyson oddi ar ardaloedd anhydraidd; mae pantiau'n sianeli bas hirion a lleiniau hidlo yn ddarnau tir sy'n goleddfu'n raddol. Mae'r ddwy nodwedd yn efelychu patrymau draenio naturiol trwy gyfeirio dŵr ffo trwy llystyfiant, gan arafu a hidlo'r llif;



FFIGUR 36: ENGHRAIFFT O LAIN HIDLO/PANT YN WEST LOTHIAN (SUSDRAIN)



FFIGUR 37: SIANEL DREFOL YN STAMFORD (SUSDRAIN)


- Arwynebau athraidd a draenau hidlo – mae ganddynt swmp o ddeunydd athraidd dan ddaear i storio dŵr wyneb. Mae dŵr ffo'n llifo i'r ardal storio hon trwy arwyneb athraidd megis; porfa, ardaloedd graeanog a phalmantu athraidd;



FFIGUR 38: PALMANTU ATHRAIDD YN STAMFORD (SUSDRAIN)

- Dyfeisiau ymdreiddio – ffosydd cerrig, ffosydd ymdreiddio a basnau ymdreiddio sy'n draenio dŵr yn uniongyrchol i mewn i'r ddaear. Mae'n hawdd gosod dyfeisiau ymdreiddio mewn ardaloedd sydd wedi'u tirlunio;

Cysyniad defnyddiol wrth ddatblygu systemau draenio cynaliadwy yw cadwyn reoli SDCau (neu *treatment train*), fel y gwelir isod. Yn union fel mewn dalgylch naturiol, gellir defnyddio cadwyn o dechnegau draenio i newid y llif a nodweddion ansawdd y dŵr ffo fesul cam.



FFIGUR 39: DIAGRAM YN DANGOS CADWYN REOLI SCDAU (SUSDRAIN)

Mae'r gadwyn reoli'n dechrau gyda gwaith atal (atal dŵr ffo trwy leihau ardaloedd anhydraidd), neu fesurau cynnal da ar gyfer lleihau llygredd; ac yn parhau trwy gamau rheoli ffynonellau lleol i gamau rheoli ar safleoedd mwy ymhellach i ffwrdd a chamau rheoli rhanbarthol.

Nid oes angen i ddŵr ffo basio drwy bob cam o'r gadwyn reoli. Gall lifo'n syth i'r safle rheoli, ond yr egwyddor gyffredinol yw ei bod yn well cael gwared â'r dŵr ffo yn lleol, gan droi'r dŵr yn ôl i'r system ddraenio naturiol cyn agosed i'r ffynhonnell â phosibl.

Dim ond os na ellir rheoli'r dŵr ar y safle y dylid ei drosglwyddo (yn araf) i rywle arall. Gall fod angen gwneud hyn er mwyn rhoi triniaeth ychwanegol i'r dŵr cyn ei waredu neu fod cyfanswm y dŵr ffo a gynhyrchir yn fwy na chapasiti'r system ddraenio naturiol yn y man hwnnw. Byddai angen anfon unrhyw lif dros ben oddi ar y safle felly.

Dylid osgoi sefyllfaoedd lle mae pendraw piben y dŵr ffo'n gollwng yn uniongyrchol i mewn i wlypdir neu bwl. Wrth gynllunio SCDau mae angen cydbwysu gwahanol opsiynau, yn dibynnu'n aml ar y peryglon sy'n gysylltiedig â phob un o'r camau gweithredu. Mae'n rhaid pwysu a mesur y peryglon o gael llifogydd mewn ardal ochr yn ochr â chostau amddiffyn yr ardal rhag gwahanol lefelau o lifogydd.

Mae cysyniad y gadwyn reoli'n hyrwyddo rhannu'r ardaloedd sy'n cael eu draenio yn is-ddalgylchoedd gyda gwahanol nodweddion draenio a defnydd tir, a phob un â'i strategaeth ddraenio ei hun. Trwy ymdrin â'r dŵr yn lleol, mae hyn yn cyfyngu ar

gyfanswm y dŵr sydd angen ei reoli mewn unrhyw fan penodol, ac yn lleihau'r angen am gyfeirio'r dŵr oddi ar y safle.

Wrth rannu dalgylchoedd yn ardaloedd llai, mae'n bwysig cadw golwg ar sut mae hyn yn effeithio ar y gwaith o reoli'r dalgylch cyfan a'r gylchred hydrolegol.

8.4 SCDau, Tirlun, Bioamrywiaeth a Mannau Agored

Gellir rhoi SCDau ar waith fel rhan o waith tirlunio cyffredinol y safle. Yn aml gellir defnyddio'r ardaloedd a ddefnyddir ar gyfer SCDau fel manau agored ac i hybu bioamrywiaeth. Felly, mae potensial y gellir bodloni nifer o ofynion y CDLI ar yr un parcel o dir. Mae rhagor o wybodaeth am dirlunio a chadwraeth ar gael yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol y Dreftadaeth Adeiledig a Dylunio ac yn y Canllawiau Cynllunio Atodol Cadwraeth Natur, sydd ar gael ar wefan y Cyngor: www.ceredigion.gov.uk/ldp <<http://www.ceredigion.gov.uk/ldp>>



FFIGUR 40: BLACK CAT DRIVE, UPTON, NORTHAMPTON (SUSDRAIN)



FFIGUR 41: CYNLLUN SCDAU ELVETHAM HEATH, HAMPSHIRE (SUSDRAIN)

8.5 Cynnal a Chadw Parhaus

Fel gydag unrhyw system, gan gynnwys rhai traddodiadol, mae angen rhywfaint o waith cynnal a chadw ar gynllun SCDau. Fodd bynnag, mae ymchwil wedi dangos nad yw gwaith cynnal a chadw ar systemau SCDau yn ddrutach na chynllun traddodiadol ac y gall fod yn rhatach.

Dangosodd adroddiad a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Caergrawnt i'r gwaith cynnal a chadw parhaus ar gynllun SCDau nad oedd palmant athraidd wedi ei gynnal a'i gadw o gwbl am dair blynedd ac er mai llai o waith nag a argymhellwyd a wnaed wedyn roedd y system wedi parhau i berfformio'n dda ac yn gallu ymdopi â'r glawiad.

Canfu'r un adroddiad fod cynnal a chadw'r cynllun SCDau wedi costio £1,340 y flwyddyn, sef tua 56 o oriau gwaith y flwyddyn. Mae'r gost yn llai o'i chymharu â chostau systemau pibelli draenio confensiynol. Mae'r system yng Nghaergrawnt 4% y flwyddyn yn rhatach i'w chynnal na'r costau cyfartalog cydnabyddedig ar gyfer pibelli draenio confensiynol. (Lamb Drove Sustainable Drainage Systems (SuDS) *Monitoring Project Final Report*, Cyngor Sir Caergrawnt Mawrth 2012)

Canfu adroddiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd fod costau palmantu athraidd yn costio llai ar sail cylchred oes nag arwynebau traddodiadol, gyda llai o gostau cynnal a chadw yn gwneud iawn am gostau cyfalaf uwch. (Adolwg o gost a budd SCDau mewn ardaloedd trefol, Tachwedd 2007)

8.6 Cwestiynau i'w Gofyn i Chi'ch Hun

Wrth feddwl am eich datblygiad a'r SCDau sydd eu hangen, efallai y byddai'n fuddiol i chi ystyried y cwestiynau canlynol:

- Sut mae'r SCDau wedi'u hystyried fel rhan o'ch cynllun a'ch datblygiad o'r safle?
- A oes unrhyw broblemau y gallech helpu i'w datrys trwy ddefnyddio SCDau? Er enghraifft, llifogydd gan ddŵr wyneb
- A ydych chi wedi ystyried sut gallai SCDau ddarparu mannau agored a mannau wedi'u tirlunio?
- A yw'r SCDau yr ydych chi wedi'u cynllunio yn cynnwys gwelliannau o ran bioamrywiaeth?